

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20

27 Tachwedd 2018

Y swm o arian a ddyrennir i gynorthwyo plant a phobl ifanc yng Nghymru yw ffocws ein gwaith craffu blynyddol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Rydym yn trafod y camau y mae Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i flaenoriaethu adnoddau, asesu fforddiadwyedd gwasanaethau, sicrhau gwerth am arian, a darparu Cyllideb Ddrafft glir a thryloyw i Gymru.

## Ein dull o weithredu

1. Eleni, rydym wedi ceisio adeiladu ar ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2018-19 Llywodraeth Cymru, a'r gwaith craffu ariannol rydym wedi ei brif ffrydio i'n gwaith craffu ar bolisi a deddfwriaeth yn ystod y Pumed Cynulliad.
2. Mae materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn rhedeg drwy bortffolios y Llywodraeth. Fodd bynnag, rydym wedi canolbwyntio ein gwaith craffu ar y Prif Grwpiau Gwariant (MEG) sydd fwyaf perthnasol i blant a phobl ifanc:
  - Addysg;
  - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
  - Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.
3. Eleni, rydym hefyd wedi cynnal gwaith craffu cydamserol gyda'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (CLILCh). Pwrpas y gwaith hwn oedd ystyried, mewn ffordd drawsbynciol, y prosesau a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i asesu effaith ei phenderfyniadau ariannol ar rai grwpiau o'r boblogaeth.



**4.** Mewn adroddiadau blaenorol ar Gyllidebau Drafft Llywodraeth Cymru, rydym wedi amlygu ein pryderon bod sylw annigonol yn cael ei roi i hawliau plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau ariannol pwysig. Mae ein galwadau ar Lywodraeth Cymru i gynnal Asesiad Effaith ar Hawliau Plant ar ei Chyllideb Ddrafft fel mater o drefn wedi cael eu gwrthod ar y sail y cynhelir asesiad effaith integredig ehangach mewn perthynas â'r Gyllideb Ddrafft. Pwrpas ein gwaith cydamserol gyda'r Pwyllgorau Cyllid a CLILCh oedd archwilio, o'n safbwyntiau penodol, pa mor gadarn fu'r broses asesu effaith integredig hyd yn hyn, a sefydlu pa welliannau y gellid eu gwneud o safbwynt plant a chydaddoldeb ar gyfer cylch cyllideb 2020-21.

## Ein tystiolaeth

**5.** Ar **8 Tachwedd**, cymerom dystiolaeth lafar fel Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (PPIA) gan:

- Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC, a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Eluned Morgan AC;
- Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AC, a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, Huw Irranca-Davies AC.

**6.** Llywiwyd y sesiynau hyn gan dystiolaeth ysgrifenedig gan Weinidogion perthnasol yn Llywodraeth Cymru<sup>1</sup> a thystiolaeth a gyflwynwyd i bwyllgorau eraill y Cynulliad<sup>2</sup>.

**7.** Ar **15 Tachwedd**, cymerom dystiolaeth lafar ar yr un pryd â'r Pwyllgorau Cyllid a CLILCh gan:

- Gomisiynydd Plant Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;<sup>3</sup>
- Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford AC, ac Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, Julie James AC (arweinydd y Cabinet ar gydraddoldeb).<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Cafwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol.

<sup>2</sup> Defnyddiom dystiolaeth a gyflwynwyd i Ymgynghoriad cyffredinol y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2019-20 Llywodraeth Cymru a thystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ymwneud â chyllidebau ysgolion o fewn y setliad Llywodraeth Leol.

<sup>3</sup> Cafwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan y Comisiynydd Plant a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

<sup>4</sup> Cafwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ac Arweinydd y Tŷ.

---

## 1. Tryloywder, atebolrwydd ac effaith

Roedd ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19 yn amlygu ein pryderon ynghylch digonolrwydd yr asesiad o effaith penderfyniadau'r gyllideb ar blant a phobl ifanc.<sup>5</sup> Amlinellodd hefyd ein pryderon sylweddol ynghylch ddiffyg ffocws ar blant yn y MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon fel yr oedd bryd hynny, a'r hyn roeddem yn ei ystyried yn ddiffyg tryloywder mewn perthynas â dyrannu adnoddau i blant a phobl ifanc.<sup>6</sup>

**8.** Mewn ymateb i adroddiad y llynedd, gwrthododd Llywodraeth Cymru ein galwad i lunio asesiad effaith hawliau plant ar ei Chyllideb Ddrafft fel mater o drefn. Fodd bynnag, ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol, cytunodd i ystyried sut i gyflwyno gwybodaeth yn well ar sut mae cynlluniau gwariant yn effeithio ar wasanaethau i blant a phobl ifanc.<sup>7</sup>

### Tryloywder ac atebolrwydd

**9.** Yng Nghyllideb Ddrafft 2019-20 Llywodraeth Cymru (Cyllideb Ddrafft 2019-20), mae cyllid i gyflwyno cyfrifoldebau portffolio'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar gyfer plant o fewn tri Grŵp Gwariant gwahanol. Ymddengys mai dim ond £13 miliwn o'r cyllid hwn sy'n dod o dan gyfrifoldeb swyddogion o fewn yr adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o'i gymharu â £287 miliwn sy'n dod o dan gyfrifoldeb swyddogion y tu allan i'w adran.<sup>8</sup>

**10.** Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog pam mae'r rhaniad hwn rhwng cyfrifoldeb am bolisi a chyllid yn bodoli, i ba raddau mae'n rhwystro goruchwyliaeth effeithiol a rheoli'r ddarpariaeth, a pham mae'r Grant Plant a Chymunedau newydd (cyfanswm o £113 miliwn) yn rhan o MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau

---

<sup>5</sup> Pwyllgor PPIA, [Adroddiad Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2018-19 Llywodraeth Cymru](#), 1 Rhagfyr 2017, tud. 3-5.

<sup>6</sup> Pwyllgor PPIA, [Adroddiad Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2018-19 Llywodraeth Cymru](#), 1 Rhagfyr 2017, tud. 18-19.

<sup>7</sup> Pwyllgor PPIA, [Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Craffu'r Pwyllgor PPIA ar Gyllideb Ddrafft 2018-19 Llywodraeth Cymru](#), Ionawr 2018.

<sup>8</sup> Cyfrifiadau yn seiliedig ar ffigurau a ddarparwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2019-20, 8 Tachwedd 2018.

Cyhoeddus pan mae ei gynnwys yn cyllido rhaglenni yn ei bortffolio polisi. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

“...one of the advantages of this cross-Government working is that we don’t have a split between where the funding sits and where the policy responsibility lies. So, even though I have to wander down the corridor and have a word with Alun in local government, or somebody else, that’s easy enough to do, and we’re small enough as a Government to do that as well. So, even though the funding sits in different MEGs and in different budget lines, it doesn’t split the responsibility for policy. So, I’ve got control of policy and funding, irrespective of whether budgets sit in the HSS MEG. So, the arrangements that we have that you see in the budget lines are purely administrative in nature.”<sup>9</sup>

**11.** Pan ofynnwyd iddo am ei farn ar gynnwys y cynllun iechyd plant arfaethedig mewn *Cymru Iachach* i bob oedran, dywedodd y Gweinidog:

“I think it’s appropriate and I think that one of the challenges around transparency now is, as we move towards more integration of services, it does then cause that issue of: can you still see whether the money goes and what the outcomes are? But I think we can.”<sup>10</sup>

## Asesiadau o effaith

**12.** Ni chyhoeddwyd Asesiad Effaith ar Hawliau Plant ochr yn ochr â’r Gyllideb Ddrafft 2019-20. Pan ofynnwyd iddo am y penderfyniad i gyhoeddi Asesiad Effaith Integredig Strategol (SSIA) yn unig, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

“...we still think it’s [the SIIA] the right way to approach [the budget]; it’s the right way to try and deliver on the vision that we set out in ‘A Healthier Wales’ to try and make sure that we are delivering more integration and seamlessness in our provision, and then to assess and plan the system on that more integrated basis [...] We think that the approach we’re taking is the right one, and I accept that there may well be a divergence of view.”<sup>11</sup>

**13.** Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i’r adroddiad hwn, fe wnaethom gyfarfod ag Aelodau’r Pwyllgor Cyllid a’r Pwyllgor CLILCh ar 15 Tachwedd i ystyried proses

---

<sup>9</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion [paragraff 272], 8 Tachwedd 2018.

<sup>10</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion [paragraff 221], 8 Tachwedd 2018.

<sup>11</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion [paragraff 230], 8 Tachwedd 2018.

Llywodraeth Cymru o asesu effaith ei phenderfyniadau cyllidebol. Cytunodd yr aelodau a oedd yn cynrychioli'r tri phwyllgor y byddent yn trafod y dystiolaeth a gasglwyd yn y sesiwn hon ac yn llunio allbwn ar y cyd maes o law. Nod yr allbwn hwn fydd llywio'r gwaith o ddatblygu Cyllideb Ddrafft 2020-21 Llywodraeth Cymru, a Chyllidebau Drafft yn y dyfodol wedi hynny, i sicrhau bod prosesau cadarn a thryloyw ar waith i asesu effaith penderfyniadau ariannol.

## EIN BARN

---

Dyraniadau cyllideb yw un o'r prif ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru ddangos yr ymrwymiad i hawliau plant a nodwyd ganddi. Bydd ein safbwyntiau manwl ar asesiad Llywodraeth Cymru o effaith ei phenderfyniadau ar y dyraniadau hyn yn cael eu cynnwys yn yr allbwn ar y cyd rydym yn bwriadu ei gyhoeddi maes o law gyda chydweithwyr o'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor CLILCh, er mwyn llywio rownd cyllideb 2020-21.

Serch hynny, rydym yn dal i bryderu nad yw'r offer roeddem yn gobeithio y byddent o gymorth i ni o ran olrhain dyraniadau ar gyfer plant a phobl ifanc - gan gynnwys cyllidebu mwy tryloyw ar gyfer plant a phobl ifanc, Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a chynllun iechyd plant - ar gael i lywio ein gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft 2019-20.

Rydym yn nodi gwaith Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'i hasesiad effaith integredig strategol, a sicrhad nifer o Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion bod ystyriaeth o hawliau plant wedi ffurfio rhan allweddol o baratoi'r Gyllideb. Serch hynny, nid ydym o'r farn bod yr wybodaeth a ddarperir o fewn neu ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2019-20 yn dangos yn ddigonol y dystiolaeth sy'n sail i hyn. Rydym yn ailadrodd casgliad y pwyllgor a ragflaenodd y pwyllgor hwn yn y Trydydd Cynulliad, yn ei adroddiad yn 2009 dan y teitl Cyllidebu ar gyfer Plant yng Nghymru:

“Mae'n bosibl bod Llywodraeth yn meddu ar y polisi gorau yn y byd, ond os na wyddwn i ble y mae'r adnoddau'n mynd yn y pen draw, ni fedrwn olrhain lle y gwnaed y buddsoddiad na'i werthfawrogi. Yn y pen draw, er mwyn i lywodraethau ddangos beth yw eu gwir flaenoriaethau, mae angen i ni sicrhau ein bod yn gallu dilyn hynt yr arian.”<sup>12</sup>

**Argymhelliad 1.** Bod Llywodraeth Cymru, o gofio am y galwadau niferus gan y Pwyllgor PPIA a Chomisiynydd Plant Cymru, yn ailystyried ei sefyllfa mewn

---

<sup>12</sup> Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Trydydd Cynulliad, Cyllidebu ar gyfer Plant yng Nghymru, Hydref 2009.

perthynas â chyllidebu ar gyfer plant ac yn asesu effaith ei phenderfyniadau cyllidebol ar hawliau plant. Dylai hyn gael ei lywio gan ailystyried casgliadau ac argymhellion adroddiad 2009 y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Gyllidebu Plant yng Nghymru. Dylai asesiadau effaith yn y dyfodol ddangos casgliadau ystyrlon, yn seiliedig ar dystiolaeth.

## 2. Addysg

Mae'r Gyllideb Ddrafft 2019-20 yn cynnwys dyraniad o £1.662 biliwn o adnoddau (refeniw) a £206 miliwn o gyfalaf o fewn y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Addysg. Mae'n parhau i fod y trydydd dyraniad mwyaf o fewn y Gyllideb Ddrafft gyffredinol, y tu ôl i lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, yn y drefn honno.

### Sefyllfa berthynol addysg

Gwybodaeth fel y'i cyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2019-20

---

- 14.** Daw'r cyllid ar gyfer addysg o ddwy brif ffynhonnell: y MEG Addysg (sy'n cynnwys y DEL Adnoddau Addysg a'r DEL Cyfalaf Addysg) a'r Setliad Llywodraeth Leol sy'n darparu cyllidebau craidd ysgolion drwy awdurdodau lleol.
- 15.** Yn y Gyllideb Ddrafft 2019-20, mae cyllid adnoddau DEL Addysg yn cynyddu £13.3 miliwn ers y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2018-19 (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018). Mae hwn yn gynydd o 0.8 y cant mewn termau arian parod ond yn ostyngiad o 0.7 y cant (£12 miliwn) mewn termau real.
- 16.** Mae cyllid cyfalaf DEL Addysg yn cynyddu £2.9 miliwn o 2018-19. Mae hwn yn gynydd o 1.4 y cant mewn termau arian parod ond yn ostyngiad o 0.2 y cant (£0.3 miliwn) mewn termau real.
- 17.** Gyda'r ddarpariaeth addysg cyn 16 oed (h.y. cyllidebau craidd ysgolion) yn cael ei chyllido'n bennaf drwy'r Setliad Llywodraeth Leol (sydd yn y DEL Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus), mae'r mwyafrif o'r gyllideb Addysg (£1.114 biliwn) yn cyllido'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach, yn ogystal â chymorth i fyfyrwyr. Mae hefyd yn cyllido gweithgareddau sy'n cynnwys gwaith ar safonau addysg (drwy'r Grant Gwella Addysg ac ymrwymadau i godi safonau ysgolion), y Grant Datblygu Disgyblion, y Gymraeg mewn addysg, dysgu seiliedig ar waith, a diwygiadau i'r cwricwlwm ac addysgu.

## Tâl athrawon a chyfraniadau pensiwn

---

**18.** Yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ar y Gyllideb Ddrafft 2019-20, nodwyd:

“...Roedd cyfanswm y dyfarniad cyflog i athrawon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn £23.5 miliwn dros ddwy flynedd. Ar gyfer 2018-19, bydd £8.7m ar gael drwy grant penodol o fewn y MEG Addysg. Ar gyfer 2019-20, mae cyllid o £13.7m wedi cael ei gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw (RSG) ar gyfer ysgolion a gynhelir o oedran meithrin i flwyddyn 11, gydag £1.074 miliwn yn cael ei ddyrannu fel grant penodol ar gyfer athrawon mewn addysg ôl-16 (chweched dosbarth mewn ysgolion).”<sup>13</sup>

**19.** Wrth ymateb i gwestiynau ar 8 Tachwedd 2018, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg nad oedd unrhyw arian wedi ei dderbyn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gyllido'r cynnydd yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwyr yn deillio o'r dyfarniad tâl. Disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet y sefyllfa hon fel un a oedd yn “peri pryder mawr”.<sup>14</sup>

**20.** Pan holwyd am y mater hwn yn y Cyfarfod Llawn, dywedodd y Prif Weinidog:

“Rwy'n rhannu pryderon pobl eraill yn y sector cyhoeddus bod perygl y bydd y newidiadau arfaethedig i gynlluniau pensiwn sector cyhoeddus yn dargyfeirio rhagor o arian o wasanaethau rheng flaen. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y newidiadau hyn ac rydym ni wedi ei gwneud yn glir bod yn rhaid iddyn nhw ariannu'r cynnydd i gyfraniadau pensiwn.

[...]rydym ni eisoes wedi ei gwneud yn glir bod awdurdodau lleol ar flaen y ciw [o ran cyllid ychwanegol], er bod ciw o ran cyllid, ond mae hynny'n dibynnu ar ba un a fyddwn ni yn cael symiau canlyniadol ai peidio. Yr hyn nad yw'n deg, ac nad yw'n iawn ychwaith, yw sefyllfa'n codi pan fo Llywodraeth y DU yn gorfodi costau ychwanegol ar awdurdodau lleol y disgwylir i Lywodraeth Cymru eu hariannu wedyn.”<sup>15</sup>

## Cyhoeddiadau pellach ers ein gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft 2019-20

---

**21.** Ar 20 Tachwedd 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford AC, £7.5 miliwn “yn ychwanegol” ym mlwyddyn ariannol 2018-19 ac ym

---

<sup>13</sup> Pwyllgor PPIA, tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar Gyllideb Ddrafft 2019-20, 8 Tachwedd 2018, tud.2.

<sup>14</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion [paragraff 18], 8 Tachwedd 2018.

<sup>15</sup> Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraffau 3-5], 13 Tachwedd 2018.



mlwyddyn ariannol 2019-20 i “helpu awdurdodau lleol â phwysau’r costau sydd ynghlwm wrth roi’r dyfarniad cyflog i athrawon”.<sup>16</sup>

## EIN BARN

---

Rydym yn cydnabod y cynnydd o £38.095 miliwn yn y DEL Adnoddau Addysg drafft ar gyfer 2019-20 o’i gymharu â chyllideb ddangosol 2019-20, ac yn croesawu bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthdroi ei bwriad gwreiddiol i dorri gwariant ar adnoddau Addysg yn 2019-20. Fodd bynnag, nodwn fod hyn yn ostyngiad o 0.7 y cant mewn termau real o’i gymharu â Chyllideb Atodol Gyntaf 2018-19 (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018).

Roedd hyn yn rhoi Addysg ochr yn ochr â Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus fel y ddau faes portffolio (heblaw am wasanaethau canolog a gweinyddiaeth) a welodd ostyngiad termau real mewn cyllid refeniw yn y Gyllideb Ddrafft 2019-20. Roedd hyn yn arbennig o bwysig oherwydd rôl llywodraeth leol yn cyllido ysgolion ac roedd yn wahanol i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yr economi a thrafnidiaeth, ac ynni, cynllunio a materion gwledig, gyda phob un ohonynt yn gweld cynnydd mewn termau real yn eu cyllid refeniw yn 2019-20.

Gan hynny, rydym yn croesawu’r cyhoeddiad ar 20 Tachwedd 2018 am gyllid ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol i gwrdd â phwysau costau gweithredu’r dyfarniad tâl i athrawon ysgol. Rydym yn gofyn am ragor o eglurder, fodd bynnag, ar y manylion sy’n sail i’r cyhoeddiad hwn.

### **Argymhelliad 2.** Bod Llywodraeth Cymru:

- yn egluro’r rhesymeg a’r diben penodol y tu ôl i’r £7.5 miliwn ychwanegol ar gyfer dyfarniadau tâl athrawon yn 2018-19 a 2019-20, o ystyried y symiau sydd eisoes wedi cael eu cyhoeddi yng Nghyllideb Ddrafft 2019-20;
- yn egluro ai bwriad yr arian ychwanegol hwn yw talu cyfraniadau pensiwn cyflogwyr (nad oedd arian wedi ei sicrhau ar ei gyfer eto) neu gwrdd â phwysau na ragwelwyd neu na chyfrifwyd amdanynt yn y dyraniadau o £8.7 miliwn a £13.7 miliwn a wnaed yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19 yn ogystal â 2019-20;

---

<sup>16</sup> Datganiad ysgrifenedig, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford AC, 20 Tachwedd 2018.



- yn egluro i ba MEG a BEL y bydd y £7.5 miliwn yn cael ei ddyrannu yn Ail Gyllideb Atodol 2018-19 a Chyllideb Derfynol 2019-20;
- yn egluro pa ystyriaeth a roddwyd i ddyrannu'r cyllid ychwanegol i liniaru'r pwysau ar gyllidebau craidd ysgolion yn hytrach nag yn benodol ar gyfer dyfarniad tâl athrawon (gan gydnabod bod cysylltiad uniongyrchol rhwng y ddau).

**Argymhelliad 3.** Bod Llywodraeth Cymru yn myfyrio ymhellach, ac yn darparu asesiad wedi ei ddiweddarau yn dilyn Cyllideb Derfynol 2019-20, ar ddigonolrwydd lefel gyffredinol y cyllid refeniw sydd ar gael ar gyfer addysg, yng ngoleuni'r gostyngiad termau real mewn cyllid refeniw yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20 (drwy'r DEL Addysg, y DEL Llywodraeth Leol a'r DEL Gwasanaethau Cyhoeddus).

## Yr ymagwedd at gyllido ysgolion

**22.** Ar wahân i gyllid penodol a ddarperir drwy'r MEG Addysg, mae ysgolion yn cael y mwyafrif helaeth o'u harian gan awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol yn cyllido cyllidebau ysgolion o'r arian a roddir iddynt gan Lywodraeth Cymru yn y Setliad Llywodraeth Leol, a'r hyn maent yn ei godi o'r dreth gyngor. Nid yw arian Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol wedi ei neilltuo, sy'n golygu bod awdurdodau lleol yn penderfynu faint o arian maent yn ei roi i ysgolion o'i gymharu â'r gwasanaethau eraill maent yn eu darparu.

**23.** Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfrifiadau tybiannol o gostau y mae'n credu y bydd awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth ddarparu lefelau safonol o wasanaethau. Cyfeirir at y rhain fel Aseidiadau Gwario Safonol (SSA). Mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio nad yw'r Aseidiadau hyn yn dargedau gwario ond yn dangos faint sydd wedi ei gynnwys yn dybiannol yn y Setliad Llywodraeth Leol i ddarparu gwasanaethau penodol.

Tabl 1 Symiau Asesiad Gwariant Safonol (SSA) y sector Gwasanaethau Ysgolion fesul blwyddyn ariannol

Blwyddyn ariannol	Swm SSA	+/- ers y cyhoeddiad blaenorol	Ffynhonnell
2018-19	£2.206 biliwn	Amherthnasol	Setliad terfynol Llywodraeth Leol 2018-19 (Rhagfyr 2017)
2018-19 (wedi ei haddasu)	£2.218 biliwn	+ £12 miliwn <sup>17</sup>	Setliad dros dro Llywodraeth Leol 2018-19 (Hydref 2018)
2019-2020	£2.227 biliwn	+ £8.9 miliwn <sup>18</sup>	Setliad dros dro Llywodraeth Leol 2018-19 (Hydref 2018)

**24.** Cafwyd cryn drafodaeth yn ystod y gyllideb hon am y gostyngiad termau real o 1.3 y cant mewn cyllid refeniw ar gyfer Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor CLILCh, cafwyd rhybudd cryf gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am effaith andwyol Cyllideb Ddrafft 2019-20 a'r Setliad dros dro Llywodraeth Leol ar awdurdodau lleol ac ysgolion yn benodol.<sup>19</sup> Rhybuddiodd Debbie Wilcox, Arweinydd y Gymdeithas, mewn llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ym mis Hydref 2018 y byddai "bwlch cyllido" posibl rhwng £57 miliwn a £119 miliwn ym maes addysg.<sup>20</sup> Mae undebau addysgu hefyd wedi rhybuddio bod y sector "wedi cyrraedd pen draw ei allu"<sup>21</sup>, "bod cyllidebau ysgolion bron â thorri"<sup>22</sup>, a bod yn rhaid ystyried y sefyllfa fel "argyfwng"<sup>23</sup>.

## EIN BARN

Nodwn fod ymagwedd Llywodraeth Cymru at sianelu cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf. Yn y Pedwerydd Cynulliad, rhoddodd gyllid ychwanegol i ddiogelu cyllidebau ysgolion un pwynt canran

<sup>17</sup> Llywodraeth Cymru, [Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol](#), tabl 8 DS Mae swm gwreiddiol 2018-19 wedi cael ei addasu oherwydd yr £8 miliwn yn ychwanegol i awdurdodau lleol ar gyfer y dyfarniad tâl athrawon ysgol a £4 miliwn ar gyfer costau uwch darparu prydau ysgol am ddim o ganlyniad i newidiadau Llywodraeth Cymru i feini prawf cymhwyster - y naill a'r llall i'w cyllido drwy'r MEG Addysg yn hytrach na'r Setliad Llywodraeth Leol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos y symiau ar lefel wedi ei haddasu 2018-19 at ddibenion cymharu gwaelodlin.

<sup>18</sup> Llywodraeth Cymru, [Amlinelliad o'r Gyllideb Ddrafft](#), paragraff 4.20 DS Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bod £13.7 miliwn yn setliad 2019-20 ar gyfer tâl athrawon a £7 miliwn ar gyfer prydau ysgol am ddim.

<sup>19</sup> Pwyllgor CLILCh, [Cofnod y Trafodion \[paragraff 19\]](#), 25 Hydref 2018 a [thystiolaeth ysgrifenedig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r Pwyllgor CLILCh](#), Hydref 2018.

<sup>20</sup> Cyhoeddwyd y llythyr hwn yn y parth cyhoeddus drwy [drydariat Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#) ar 9 Hydref 2018.

<sup>21</sup> [Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru i'r Pwyllgor Cyllid](#), Medi 2018.

<sup>22</sup> Ibid.

<sup>23</sup> "Argyfwng" oedd y gair a ddefnyddiodd Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn ei [dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid](#), Medi 2018.

uwchlaw'r newid yn y grant bloc yng Nghymru. Dyrannwyd y mwyafrif o'r cyllid hwn (£107 miliwn o £146 miliwn rhwng 2010-11 a 2015-16) drwy'r setliad llywodraeth leol yn hytrach na ffrydiau cyllido wedi eu targedu yn y MEG Addysg.<sup>24</sup>

Ar ddechrau'r Pumed Cynulliad, dyrannwyd y £100 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i godi safonau ysgolion drwy'r MEG Addysg i fentrau yr oedd Llywodraeth Cymru o'r farn oedd yn cefnogi gwelliannau i ysgolion yn fwyaf effeithiol. I'r gwrthwyneb, yng Nghyllideb Ddrafft 2018-19, cafodd cyllid llywodraeth leol ar gyfer grantiau addysg penodol (gan gynnwys Grantiau Gwisg Ysgol a Grantiau Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn-Teithwyr) ei ail-flaenoriaethu tuag at gyllid heb ei neilltuo i gynnal cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion yn y Setliad Llywodraeth Leol ar lefelau 2017-18. Fe wnaethom fynegi ein pryderon ynghylch hyn yn adroddiad y llynedd, ac rydym yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi ailgyflwyno'r arian grant hwn gydag arian o gronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, rydym wedi tynnu sylw at y ffaith bod hyn wedi amlygu diffygion y penderfyniad cychwynnol yng nghyllideb 2018-19 i gymryd arian o'r grantiau wedi eu neilltuo hyn.<sup>25</sup>

Yng ngoleuni'r pryderon cynyddol ynghylch cyllid ar gyfer ysgolion, rydym yn ymgynghori ar ein hymchwiliad i gyllido ysgolion. Ein nod yw adrodd mewn pryd i lywio rownd gyllideb 2020-21. Yn y cyfamser, rydym yn cydnabod yr her o daro cydbwysedd sy'n galluogi llywodraeth leol i gyllido (drwy'r Setliad Llywodraeth Leol) y gwasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt tra'n cynnal cyllid canolog digonol i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.<sup>26</sup> Serch hynny, nid ydym yn glir pa feini prawf sydd gan Weinidogion Cymru a pha rai y byddant yn eu mabwysiadu i benderfynu sut caiff y cydbwysedd hwnnw ei sefydlu. Credwn y gallai rhagor o dryloywder yn y maes hwn helpu i leddfu pryderon ynghylch penderfyniadau i sianelu cyllid drwy grantiau MEG Addysg neu'r Setliad Llywodraeth Leol.

**Argymhelliad 4.** Bod Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi meini prawf eglur yn esbonio'r sail ar gyfer dyrannu cyllid i ysgolion naill ai drwy gyllid llywodraeth leol heb ei neilltuo neu ddyraniadau wedi eu neilltuo dan y MEG Addysg.

---

<sup>24</sup> Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Briff Ymchwil Cyllido Ysgolion yng Nghymru](#), Awst 2018, tud.17.

<sup>25</sup> Pwyllgor PPIA, [Gohebiaeth at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg](#), 6 Gorffennaf 2018.

<sup>26</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 11], 8 Tachwedd 2018.

## Cronfeydd wrth gefn ysgolion

**25.** Dengys data Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018 fod lefel cronfeydd wrth gefn ysgolion wedi cynyddu yn y flwyddyn ddiweddaraf (2017-18) yn dilyn gostyngiad yn 2016-17.<sup>27</sup> Er nad yw'n cyrraedd lefelau 2015-16, gwelwyd tuedd am i fyny mewn cronfeydd wrth gefn a gedwir gan ysgolion.

*Tabl 2: Cronfeydd wrth gefn ysgolion yn ôl blwyddyn ariannol*

Blwyddyn ariannol	Lefel net cronfeydd wrth gefn ysgolion	Lefel fesul disgybl o gronfeydd wrth gefn yr ysgol	% y newid o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol
<b>2015-16</b> (ar 31 Mawrth 2016)	£64 miliwn	£125	Amherthnasol
<b>2016-17</b> (ar 31 Mawrth 2017)	£46 miliwn	£102	-28%
<b>2017-18</b> (ar 31 Mawrth 2018)	£50 miliwn	£111	+10%

Ffynhonnell: Ystadegau ar gyfer Cymru, [Cronfeydd wrth gefn a gynhelir gan ysgolion yng Nghymru ar 31 Mawrth 2018](#), Hydref 2018

**26.** Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn pennu trothwyon uchaf ar gyfer lefel yr arian wrth gefn y gall ysgol ei gadw heb i'r awdurdod lleol ymyrryd.<sup>28</sup> Yn achos ysgolion cynradd, mae hyn yn £50,000 ac yn achos ysgolion uwchradd mae'n £100,000. Mae'r rheoliadau yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol naill ai roi cyfarwyddyd i ysgolion wario arian uwchlaw'r trothwy hwn neu fel arall adennill yr arian.

**27.** Mae tystiolaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod nifer yr ysgolion sy'n cadw cronfeydd wrth gefn uwchlaw'r trothwy statudol (y pwynt sbarduno sy'n galluogi awdurdodau lleol i ymyrryd) wedi codi tua 100 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2017-18), o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol (2016-17), o 394 i 497.<sup>29</sup> Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fod y cynnydd hwn yn "benodol i'r sector" gyda'r ysgolion ychwanegol sy'n cadw cronfeydd wrth gefn uwchlaw'r trothwy statudol yn y sector cynradd yn bennaf.<sup>30</sup> Aeth yn ei blaen i gydnabod, er y gallai rheswm penodol a chyfreithlon fod dros ysgol yn dal lefel benodol o arian wrth gefn, roedd y lefelau presennol yn "peri

<sup>27</sup> Llywodraeth Cymru, Ystadegau ar gyfer Cymru, [Cronfeydd wrth gefn gan ysgolion yng Nghymru ar 31 Mawrth 2018](#), 17 Hydref 2018.

<sup>28</sup> Llywodraeth Cymru, [Rheoliadau Cyllido Ysgolion \(Cymru\) 2010](#).

<sup>29</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion [paragraff 22], 8 Tachwedd 2018 a dadansoddiad Gwasanaeth Ymchwil y ynulliad o ddata [StatsCymru](#).

<sup>30</sup> Pwyllgor PIA, Cofnod y Trafodion [paragraff 21], 8 Tachwedd 2018.

pryder” iddi, ac roedd i’n “neilltuol o bryderus” am y rhai oedd wedi bod yn y sefyllfa honno dros gyfnod hir.<sup>31</sup> Daeth i gasgliad drwy ddweud:

“...if a school has had consistently high levels of reserves over a long period of time, then I think we need to understand better what is going on [...] We are discussing with colleagues in local government how often they have used that power [to direct schools to spend the money or recover it] and what their policy is for using the powers they have under the 2010 regulations to address these issues of reserves.”<sup>32</sup>

## EIN BARN

---

Ym mis Tachwedd 2016 rhybuddiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg os oedd ysgolion yn “dal gafael” yn eu harian wrth gefn ar gyfer “diwrnod glawog”, bod angen gwario’r arian hwnnw oherwydd “roedd hi’n bwrw glaw”.<sup>33</sup> Yng ngoleuni’r heriau ariannol presennol, rydym yn pryderu bod y ffigurau diweddaraf yn dangos bod nifer yr ysgolion sy’n cadw arian wrth gefn uwchlaw’r trothwy statudol wedi cynyddu 26 y cant rhwng 2016-17 a 2017-18.

Er bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn nodi yn ei thystiolaeth ysgrifenedig nad yw Llywodraeth Cymru yn monitro a yw awdurdodau lleol yn defnyddio eu pwerau yn y maes hwn, roeddem yn falch o’i chlywed yn datgan yn ei thystiolaeth lafar fod ei swyddogion bellach yn trafod y mater gydag awdurdodau lleol ac yn edrych ar yr hyn sy’n cael ei wneud i fynd i’r afael â’r mater.

**Argymhelliad 5.** Bod Llywodraeth Cymru:

- yn gweithio’n fwy rhagweithiol â llywodraeth leol i leihau nifer yr ysgolion sy’n cadw arian wrth gefn uwchlaw’r trothwy statudol;
- yn rhoi sicrwydd, yn dilyn trafodaeth â llywodraeth leol, bod pob ysgol sy’n cadw arian wrth gefn uwchlaw’r trothwy statudol yn gwneud hynny am reswm dilys a bod ganddi gynllun clir i wario’r arian yn briodol.

## Addysg broffesiynol athrawon

**28.** Mae’r Gyllideb Ddrafft 2019-20 yn dyrannu £15 miliwn yn ychwanegol ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon mewn cymhariaeth â Chyllideb Atodol Gyntaf

---

<sup>31</sup> Pwyllgor PIA, Cofnod y Trafodion [paragraff 22], 8 Tachwedd 2018.

<sup>32</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion [paragraff 22-23], 8 Tachwedd 2018.

<sup>33</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion [paragraff 32], 10 Tachwedd 2016.

2018-19 (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018). Dyrannwyd y £15 miliwn hwn drwy'r MEG Addysg, o'r cronfeydd wrth gefn.<sup>34</sup>

**29.** Beirniadodd Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Debbie Wilcox, y penderfyniad i neilltuo'r arian ychwanegol, a ddywedodd wrth y Pwyllgor CLILCh:

“...the key question here is why is this money is not in the revenue support grant? [...] That's all very well developing teachers but we're making teachers redundant because we can't afford to pay for them. It's ludicrous and it exacerbates the ways that the impact of these cuts will divert remaining resources away from the classroom.”<sup>35</sup>

**30.** Pan ofynnwyd ar 8 Tachwedd pam y dyrannwyd yr arian hwn fel grant wedi ei neilltuo yn hytrach na'i ddarparu drwy'r Setliad Llywodraeth Leol heb ei neilltuo, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

“...when times are tough in school budgets, oftentimes schools are saying, 'I haven't got the opportunity to release said member of staff to go and do their professional development', because, obviously, that costs money to backfill, or 'I haven't got the resources to be able to support that member of staff to pursue the professional learning opportunities that they want to do.' We need to make sure that there are resources available for schools to do just that, because very often [...] when budgets are tight, some of these opportunities are the first to go within schools.”<sup>36</sup>

**31.** Ar 13 Tachwedd 2018, cafwyd datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn y Cyfarfod Llawn, lle cyhoeddodd y byddai £9 miliwn yn cael ei ddarparu yn ystod y flwyddyn ariannol hon (2018-19) yn ychwanegol at y £15 miliwn a ddarparwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2019-20 i ddechrau gweithio ar gyflwyno “dull cenedlaethol o ddysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa, sy'n cynyddu gallu o'r addysg gychwynnol i athrawon ac a gaiff ei wreiddio mewn ymchwil ar sail tystiolaeth a chydweithredu effeithiol”.<sup>37</sup> Nododd ymhellach mai nod y cyllid ychwanegol hwn yw datblygu “diwylliant a'r seilwaith dysgu proffesiynol i sicrhau y bydd diwygio'r cwricwlwm yn cael ei wireddu”.<sup>38</sup>

---

<sup>34</sup> Pwyllgor PPIA, tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar Gyllideb Ddrafft 2019-20, 8 Tachwedd 2018, tud. 5.

<sup>35</sup> Pwyllgor CLILCh, Cofnod y Trafodion [paragraff 19], 25 Hydref 2018.

<sup>36</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 50], 8 Tachwedd 2018.

<sup>37</sup> Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 131], 13 Tachwedd 2018.

<sup>38</sup> Ibid.

## EIN BARN

---

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd am yr adnoddau sydd ar gael i lywodraeth leol allu cyllido ysgolion yn ddigonol. Adlewyrchir hyn yn argymhelliad 3 sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i fyfyrion ymhellach, a darparu asesiad wedi ei ddiweddarau yn dilyn Cyllideb Derfynol 2019-20, ar ddigonolrwydd lefel gyffredinol y cyllid refeniw sydd ar gael ar gyfer addysg, yng ngoleuni'r gostyngiad termau real mewn cyllid refeniw yn y Cyllideb Ddrafft 2019-20 (drwy'r DEL Addysg, y DEL Llywodraeth Leol a'r DEL Gwasanaethau Cyhoeddus).

Serch hynny, croesawn y camau a gymerwyd i ymateb i alwadau yn ein hadroddiad yn 2017 ar ddysgu ac addysg broffesiynol athrawon i sicrhau bod y gweithlu cyfan yn barod ar gyfer newidiadau sylweddol i'r cwricwlwm.<sup>39</sup> Rydym yn credu'n gryf bod yn rhaid i'n gweithlu gael ei gydnabod fel ein hased cryfaf os ydym am ddarparu'r cyfle "unwaith mewn cenhedlaeth" a ddaw yn sgil y cwricwlwm newydd.

**Argymhelliad 6.** Bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau:

- a yw'r £9 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i addysg broffesiynol athrawon ar gyfer y flwyddyn ariannol hon (2018-19) wedi cael ei ddarparu o gronfeydd wrth gefn neu o fannau eraill (ac os daeth o fannau eraill, manylion am y manau hynny);
- a fydd y £9 miliwn ychwanegol yn 2018-19 yn cael ei ddyrannu i'r BEL Athrawon a Datblygu (fel yn achos y £15 miliwn ychwanegol yn 2019-20) ac, os felly, a fydd ail drosglwyddiad o £9 miliwn i BEL Athrawon a Datblygu 2018-19 ar ben y £8 miliwn sydd eisoes wedi ei gynllunio i gyllido'r dyfarniad tâl athrawon ar gyfer blynyddoedd 1 i 11 mewn ysgolion.

## Maint dosbarthiadau babanod

**32.** Yn ystod y Pumed Cynulliad, mae Llywodraeth Cymru yn darparu £36 miliwn - £16 miliwn o refeniw a £20 miliwn o gyfalaf - i gyflawni ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i leihau maint dosbarthiadau babanod.

**33.** Pan holwyd am y gwelliannau mewn canlyniadau addysgol sy'n deillio o'r buddsoddiad hwn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ei bod yn rhy

---

<sup>39</sup> Pwyllgor PPIA, Adroddiad ar yr ymchwiliad i Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon, Rhagfyr 2017.



gynnar i ddweud pryd y gwireddir y rhain.<sup>40</sup> Fodd bynnag, eglurodd fod trafodaethau gyda phenaethiaid yn awgrymu eu bod yn hyderus y byddai'r buddsoddiad i leihau maint dosbarthiadau babanod yn "gwneud gwahaniaeth" i blant a staff,<sup>41</sup> gan nodi y byddai gofyn i ysgolion adrodd yn ôl ar effaith y gwariant<sup>42</sup>.

## EIN BARN

---

Credwn mai un o ofynion craidd cynllunio ariannol yw gallu dangos tystiolaeth o'r gwerth am arian y mae'n debygol o'i gyflawni, ac y caiff ei wireddu wedyn, drwy fuddsoddi mewn meysydd penodol. Daw hyn hyd yn oed yn fwy pwysig pan fo blaenoriaethu a fforddiadwyedd gwasanaethau yn cael ei herio yn yr hinsawdd economaidd ehangach. Rydym yn pryderu ei bod yn ymddangos bod diffyg tystiolaeth ddiriaethol yn sail i'r buddsoddiad mewn lleihau maint dosbarthiadau babanod er mwyn gwella cyrhaeddiad addysgol.

**Argymhelliad 7.** Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi amlinelliad o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd fel sail ar gyfer y buddsoddiad i leihau maint dosbarthiadau babanod, gan gynnwys ystyriaethau o ran cost cyfle, ac asesiad parhaus ar sail tystiolaeth o effaith y buddsoddiad ar ganlyniadau addysgol yng Nghymru.

## Cyllid drwy gonsortia rhanbarthol

**34.** Cyllidir nifer o fentrau arian grant drwy'r pedwar consortiwm rhanbarthol, sy'n gyfystyr â £230 miliwn o'r MEG Addysg ar gyfer addysg cyn 16 oed.

### Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol

---

**35.** Nodir yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, yn dilyn adolygiad, mai dim ond dau grant i gonsortia sy'n parhau: y Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y rhesymeg dros y "symleiddio" hwn fel a ganlyn:

"...school funding can be very complicated and sometimes not, perhaps, as transparent and easy to understand as people would like, and that's because there is a plethora of individual grants, funding streams and mechanisms that get money to the front line. We were in a situation where we had 16 separate grants being distributed to regional consortia, and that's not helpful when you're trying to be strategic in

---

<sup>40</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 65], 8 Tachwedd 2018.

<sup>41</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 71], 8 Tachwedd 2018.

<sup>42</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 67], 8 Tachwedd 2018.

spending money and trying to have some kind of transparency about how that money is being used.”<sup>43</sup>

**36.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ei hymrwymiad i roi cyfarwyddiadau clir i gonsortia rhanbarthol ar yr hyn y dylid defnyddio'r arian ar ei gyfer, pa ganlyniadau a ddisgwylir, a sicrhau adolygiad rheolaidd o wariant consortia.<sup>44</sup>

## EIN BARN

---

Rydym yn nodi gwaith Llywodraeth Cymru i symleiddio'r grantiau a ddyrennir i gonsortia rhanbarthol ac yn cydnabod cymhlethdod y tirwedd cyllido ysgolion y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ei disgrifio. Edrychwn ymlaen at ganfod gwelliannau posibl i'r system fel rhan o'n hymchwiliad i gyllido ysgolion.

Rydym yn annog Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i sicrhau, wrth gyfuno nifer o grantiau llai i ffurfio Grant Gwella Ysgolion mwy Consortia Rhanbarthol, nad yw'r sylw i elfennau unigol yn cael ei golli. Dyma thema a amlygwyd gennym yn ein hymchwiliad i'r Grant Gwella Addysg yn 2017, o ran cymorth i ddysgwyr Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<sup>45</sup>

**Argymhelliad 8.** Bod Llywodraeth Cymru yn egluro a yw pob un o'r grantiau llai sydd yn y Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol newydd, mwy o faint, wedi eu neilltuo.

## Y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad

---

**37.** Mae'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad yn rhan o'r Cam Gweithredu Grant Datblygu Disgyblion ehangach (a drafodir yn fanylach yn y bennod nesaf). Cyflwynwyd y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad yn 2018-19 i ddisodli ac ehangu'r Grant Gwisg Ysgol, gan ddarparu cymorth i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wrth ddechrau yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Yn 2019-2020, dyrannwyd £1.8 miliwn i'r gronfa Mynediad, gan ei dyblu i £3.6 miliwn.<sup>46</sup>

---

<sup>43</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 99], 8 Tachwedd 2018.

<sup>44</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 102], 8 Tachwedd 2018.

<sup>45</sup> Pwyllgor PPIA, Ymchwiliad i'r Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a Phlant o Leiafrifoedd Ethnig, 2017.

<sup>46</sup> Pwyllgor PPIA, tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar Gyllideb Ddrafft 2019-20, 8 Tachwedd 2018, tud. 4.

## EIN BARN

---

Rydym yn croesawu adfer y cyllid hwn yng ngoleuni'r pryderon sylweddol y gwnaethom eu mynegi yn gynharach eleni ynglŷn â therfynu'r Grant Gwisg Ysgol. Rydym hefyd yn croesawu'r ymestyn y cyllid i alluogi rhieni i brynu eitemau eraill i ganiatáu i'w plant gymryd rhan lawn mewn addysg neu weithgareddau sy'n gysylltiedig ag addysg, a'r ffaith ei fod yn cael ei ymestyn i'r rhai sy'n dechrau yn yr ysgol gynradd yn ogystal â'r rhai sy'n dechrau yn yr ysgol uwchradd.

**Argymhelliad 9.** Bod Llywodraeth Cymru yn rhannu ei chynlluniau, unwaith y byddant ar gael, ynghylch sut bydd y £1.8 miliwn ychwanegol ar gyfer Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad yn 2019-20 yn cael ei ddefnyddio, a sut caiff gwariant a chanlyniadau eu monitro o ran fforddiadwyedd a gwerth am arian.

## Gwella ysgolion

### Codi safonau ysgolion

---

**38.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £100 miliwn i godi safonau ysgolion yn ystod y Pumed Cynulliad. Dyrennir £25.5 miliwn yn 2019-20.<sup>47</sup>

**39.** Yn ein Hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2018-19, fe wnaethom ni argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwarchod yr arian hwn rhag dod yn llinell gyllideb "benagored" ar gyfer mentrau heb gartref naturiol yn y gyllideb, neu na fyddai'n gallu sicrhau digon o adnoddau fel arall.

**40.** Yn ei thystiolaeth, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, mewn ymateb i'n pryderon, ei bod hi wedi gofyn i swyddogion gynnal adolygiad mewnol i weld a oedd y £100 miliwn wedi ei alinio â blaenoriaethau strategol. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet ein hawgrym y dylai alinio strategol fod yn glir.<sup>48</sup>

## EIN BARN

---

Rydym yn croesawu'r adolygiad o'r £100 miliwn ar gyfer Codi Safonau Ysgolion a chydabyddiaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg o gyfraniad adeiladol gwaith craffu'r pwyllgor yn hyn o beth.

---

<sup>47</sup> Darperir dadansoddiad dros dro o'r £25.5 miliwn yn Atodiad D yn nhystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

<sup>48</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 93], 8 Tachwedd 2018.

---

## Llywodraethu ysgolion

---

**41.** Mae'r BEL Llywodraethu Ysgolion yn gostwng o £36,000 yn 2018-19 i ddim yn 2019-20.<sup>49</sup> Mae hyn yn dilyn terfynu'r cyllid ar gyfer Llywodraethwyr Cymru yn 2018-19, a diwedd y contract gyda'r Gwasanaeth Ymchwilio Annibynnol ym mis Gorffennaf 2018.

**42.** Yn ein hadroddiad ar y Gyllideb Ddrafft 2018-19, fe wnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i adolygu effaith trefniadau cymorth diwygiedig i lywodraethwyr yng Nghymru a sicrhau bod cymorth effeithiol yn parhau.<sup>50</sup> Pan holwyd Ysgrifennydd y Cabinet am oblygiadau'r gyllideb sero yn 2019-20, dywedodd:

“...training for governors is very important, but in the constraints of the budgets that we are ourselves faced with, we've had to look at prioritising resources. Governor support is available, both at a local education authority level and at a regional consortia level and, therefore, whilst I very much appreciated the work that Governors Wales has previously done, we're not in a position where we can duplicate services available. But governors training is really important, and some of this work will be being taken forward by the National Academy of Educational Leadership.”<sup>51</sup>

### EIN BARN

---

Rydym yn cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg bod gan lywodraethwyr ysgol rôl arwyddocaol i'w chwarae o ran gwella ysgolion, ac felly mae'n bwysig bod digon o gyngor, cymorth a hyfforddiant ar gael. Rydym yn nodi ei chadarnhad y bydd awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol yn darparu'r cymorth hwn, er nad yw'n glir i ba raddau y bydd cymorth annibynnol ar gael.

**Argymhelliad 10.** Bod Llywodraeth Cymru yn monitro'n agos effaith dileu'r BEL Llywodraethu Ysgolion annibynnol er mwyn osgoi unrhyw amhariad ar y cymorth sydd ar gael i lywodraethwyr, a chanlyniadau anfwriadol o ran gwella ysgolion.

---

<sup>49</sup> Pwyllgor PPIA, tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar Gyllideb Ddrafft 2019-20, 8 Tachwedd 2018, tud. 5.

<sup>50</sup> Pwyllgor PPIA, Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2018-19 Llywodraeth Cymru, 1 Rhagfyr 2017, tud.11-12.

<sup>51</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 31], 8 Tachwedd 2018.

## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

**43.** Mae'r Gyllideb Ddrafft 2019-20 yn cynnwys trosglwyddo £2 filiwn cost-niwtral o Gam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg i Gam Gweithredu y Gymraeg. Pan holwyd hi am resymeg y trosglwyddiad hwn, fe wnaeth Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ei briodoli i hyrwyddo'r Gymraeg yn unol â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.<sup>52</sup>

**44.** Pan holwyd hi am adnoddau i gynyddu capasiti cyfrwng Cymraeg yn y gweithlu addysgu, dywedodd y Gweinidog y byddai "bob amser yn dda cael rhagor o arian", bod angen rhagor o waith, ond bod mentrau ar waith i gynyddu nifer y bobl sy'n dod i mewn i'r proffesiwn i addysgu yn Gymraeg.<sup>53</sup>

**45.** Mewn perthynas â buddsoddiad cyfalaf, dywedodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes fod £30 miliwn wedi ei ddyrannu o'i chyllideb ochr yn ochr â'r £60 miliwn a ddyrannwyd i ategu'r cynnig gofal plant. Dywedodd mai pwrpas y dyraniad cyfalaf hwn, sy'n werth £30 miliwn, oedd "helpu i hyrwyddo'r cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg". Fe nodom ni fod arian cyfalaf cyfrwng Cymraeg a gofal plant wedi ei gyfuno i wneud y mwyaf o nifer y prosiectau y gellir eu cefnogi, a thrwy hynny eu gwerth am arian. Yn ôl y Gweinidog:

"There's an understanding now that, actually, if you really want to increase the number of people going into Welsh education, you've got to start off really, really early, and the time to do that is to increase the childcare offer. [...] We've worked with the Minister responsible for childcare. We've put £30 million down; he's added to that pot £16 million, specifically to help that childcare offer through the medium of Welsh.

[...] So, what we'll see as a consequence now is, in terms of additional Welsh learners, we are expecting 41 projects to be supported, and that means an increase of 2,800 pupils into the Welsh language system. So, what we've done is unite education and the childcare offer together, so that's been a very constructive co-operation."<sup>54</sup>

---

<sup>52</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 74], 8 Tachwedd 2018.

<sup>53</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 80], 8 Tachwedd 2018.

<sup>54</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 198-199], 8 Tachwedd 2018.

## EIN BARN

---

Rydym yn nodi'r cyllid sy'n symud o'r Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg i Gam Gweithredu y Gymraeg. Rydym yn croesawu gwaith Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg, ond byddem yn awyddus i sicrhau nad yw'r trosglwyddo adnoddau hyn yn arwain at golli pwyslais ar addysg cyfrwng Cymraeg fel cyfrwng i gwrdd â tharged Cymraeg 2050. Rydym yn croesawu'r cyfuniad creadigol ac effeithlon o gyfalaf gofal plant a chyfalaf cyfrwng Cymraeg i wneud y mwyaf o werth am arian, ac i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd yn ein hadroddiad Cam 1 ar Fil Cyllid Gofal Plant (Cymru).

**Argymhelliad 11.** Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau:

- nad yw symud gwerth £2 filiwn o adnoddau o Gam Gweithredu y Gymraeg mewn Addysg i Gam Gweithredu y Gymraeg yn arwain at golli pwyslais ar addysg cyfrwng Cymraeg fel cyfrwng i gwrdd â tharged Cymraeg 2050;
- bod y cyfle i alinio nodau'r cynnig gofal plant gyda rhai Cymraeg 2050 yn parhau i gael ei ddilyn yn y modd a ddangosir gan y defnydd arloesol o gyllid cyfalaf traws-bortffolio.

## Addysg ôl-16

Gwybodaeth fel y'i cyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2019-20

---

**46.** Mae'r Gyllideb Ddrafft 2019-20 yn cynnwys £420 miliwn fel rhan o'r Cam Gweithredu Addysg Ôl-16. Mae cyllid o dan y Cam Gweithredu hwn yn cyflwyno gweithgarwch chweched dosbarth, sefydliadau addysg bellach ac addysg oedolion yn y gymuned. Ni ddarperir unrhyw wybodaeth bellach ynghylch sut caiff y dyraniad ei rannu ar gyfer y gwahanol weithgareddau gan Lywodraeth Cymru yn yr wybodaeth a gyhoeddwyd ganddi.

**47.** Pan ofynnwyd iddi ar 8 Tachwedd i roi rhagor o fanylion am sut byddai'r £420 miliwn yn cael ei rannu, nododd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes:

"We're still in that period now where people are deciding where they're going to go. So, I don't think it would be appropriate for us to separate this out, because, actually, there is a real fluidity between those different institutions. But just to give you a broad picture of where we're at: on the whole, what we've got is that there is about £309 million for further education colleges, about £92 million for sixth forms and about £4 million for adult learning. But, as I say, we won't know the exact

details, probably, until later on this month, in terms of where people have settled.”<sup>55</sup>

**48.** Aeth y Gweinidog ymlaen i nodi y byddai'n cyhoeddi newidiadau i'r fformiwla cyllido ar gyfer addysg bellach ddiwedd mis Tachwedd gyda'r bwriad o sicrhau “tegwch ar draws Cymru gyfan”.<sup>56</sup> Eglurodd hefyd ei nod o newid ffocws mewn addysg bellach “fel ein bod yn ymateb i anghenion sgiliau'r economi”.<sup>57</sup>

**49.** Pan ofynnwyd iddi sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i sefydliadau addysg bellach gwrdd â phwysau chwyddiant yn y sector addysg bellach, gan gynnwys dyfarniadau tâl, cyfeiriodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes at y cytundeb gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddarparu arian ychwanegol mewn perthynas â'r chweched dosbarth. Disgrifiodd y diffyg cytundeb tebyg ar gyfer sefydliadau addysg bellach fel “rhywfaint o gur pen”.<sup>58</sup> Eglurodd fod y trafodaethau'n parhau, roedd y niferoedd yn cael eu hystyried i asesu “i ba raddau y byddwn ni [Llywodraeth Cymru] yn gallu helpu”, ond ei bod yn dal yn rhy gynnar i gadarnhau.<sup>59</sup> Dywedodd y Gweinidog ei bod yn gobeithio y byddai penderfyniad yn cael ei wneud mewn pryd ar gyfer trafod Cyllideb Derfynol 2019-20.<sup>60</sup>

**50.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet na fyddai'r gostyngiad arfaethedig ar gyfer 2019-20 o £9.8 miliwn ar gyfer dosbarthiadau chweched dosbarth yng Nghymru yn digwydd erbyn hyn, gyda chyllid yn cael drosglwyddo o BEL Ffyniant i Bawb (£7.2 miliwn) a chronfeydd wrth gefn cyffredinol (£2.6 miliwn) i wneud iawn am y diffyg.<sup>61</sup>

---

## Cyhoeddiadau pellach ers ein gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft 2019-20

---

**51.** Ar 20 Tachwedd, cafwyd datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn y Cyfarfod Llawn yn amlinellu penawdau fformiwla newydd cyllido addysg bellach. Eglurodd y Gweinidog y byddai'r fformiwla hon yn golygu y byddai cysylltiad sylfaenol rhwng cyllid addysg bellach a'r anghenion sgiliau a nodwyd gan y tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol:

---

<sup>55</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 133], 8 Tachwedd 2018.

<sup>56</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 139], 8 Tachwedd 2018.

<sup>57</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 141], 8 Tachwedd 2018.

<sup>58</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 163], 8 Tachwedd 2018.

<sup>59</sup> Ibid.

<sup>60</sup> Ibid.

<sup>61</sup> Pwyllgor PPIA, tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar Gyllideb Ddrafft 2019-20, 8 Tachwedd 2018, tud.3.



“Os bydd colegau’n cyflwyno cynlluniau sydd ddim yn adlewyrchu argymhellion y partneriaethau [sgiliau rhanbarthol], ni fyddant yn cael eu cymeradwyo. Ar ben hyn, bydd fy swyddogion i yn sicrhau bod pob darpariaeth yn cyd-fynd â’r cynlluniau hynny, ac yn gwneud addasiad i’r cyllid lle bo hynny’n briodol.”<sup>62</sup>

**52.** Mewn perthynas â dyfarniadau tâl, cadarnhaodd y Gweinidog yn ei datganiad i’r Cyfarfod Llawn:

“...bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i alluogi darlithwyr addysg bellach i ennill cytundeb cyflog yn 2018-19 a 2019-20 a hwnnw’n gymesur â’r un a gafodd athrawon ysgol.”<sup>63</sup>

**53.** Ategodd y Gweinidog hynny drwy ddweud y byddai’r cytundeb cyflog hwn hefyd yn cael ei ymestyn i staff addysg bellach eraill “sydd yn y gwasanaethau cymorth, rai ohonyn nhw ar incwm isel iawn”.<sup>64</sup> Yn ystod ei datganiad ni nododd y Gweinidog faint o arian ychwanegol fyddai ar gael i’r sector i gwrdd â’r cytundeb cyflog.

## EIN BARN

---

Credwn fod tryloywder cyllideb yn allweddol i sicrhau bod buddsoddiadau Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaethau sy’n fforddiadwy ac sy’n rhoi gwerth am arian. Er ein bod yn cydnabod na fydd y ffigurau terfynol o dan Gam Gweithredu Addysg Ôl-16 ar gael tan ddiwedd y broses graffu ar y Gyllideb Ddrafft, credwn y gellid ac y dylid darparu ffigurau dangosol i’r Cynulliad eu trafod fel mater o drefn.

Rydym yn croesawu gwrthdroi’r gostyngiad a gynlluniwyd yn flaenorol mewn cyllid chweched dosbarth. Rydym hefyd yn croesawu datganiad y Gweinidog y bydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i’r sector addysg bellach i ddarparu cytundeb cyflog sy’n gymesur ag athrawon ysgol ac athrawon chweched dosbarth, ac ymestyn y ddarpariaeth honno i aelodau eraill o staff addysg bellach. Edrychwn ymlaen at:

- ddod i wybod mwy am lefel y cyllid ychwanegol a ddarperir i sefydliadau addysg bellach ac i’r trafodaethau ddod i ben yn ffurfiol;

---

<sup>62</sup> Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 284], 20 Tachwedd 2018.

<sup>63</sup> Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 294], 20 Tachwedd 2018.

<sup>64</sup> Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 301], 20 Tachwedd 2018.

- rhagor o fanylion ynghylch sut bydd y Gweinidog yn sicrhau bod gofynion sgiliau'r economi yn cael eu blaenoriaethu yn unol â'r fformiwla cyllido newydd ar gyfer addysg bellach.

### **Argymhelliad 12.** Bod Llywodraeth Cymru:

- yn egluro, er mwyn tryloywder a chraffu effeithiol, y modd y rhennir Cam Gweithredu Addysg Ôl-16 ar draws darpariaethau chweched dosbarth, sefydliadau addysg bellach ac addysg oedolion yn y gymuned ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018-19 a 2019-20;
- yn amlinellu lefel yr arian ychwanegol sydd i'w ddarparu i sefydliadau addysg bellach yn dilyn datganiad y Gweinidog ar 20 Tachwedd, ac yn cadarnhau y bydd hyn yn cyllido'r cytundeb cyflog yn llawn.

## **Addysg uwch ac addysg bellach**

**54.** Mae'r Cam Gweithredu Addysg Uwch yn £141.142 miliwn yn 2019-20. Mae'n cynnwys yr holl ddyraniad refeniw o £141.052 miliwn i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a £0.090m ar gyfer dibrisiant cyfalaf. Mae cyllid cyfalaf y Cyngor Cyllido, sy'n gyfanswm o £10 miliwn (gan gynyddu'r swm cyffredinol sydd ar gael i'r Cyngor Cyllido i £152.142 miliwn), yn y Cam Gweithredu ar wahân ar gyfer Ystadau a Darpariaeth Technoleg Gwybodaeth.<sup>65</sup>

**55.** Mae'r Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16 yn cyrraedd cyfanswm o £552.611 miliwn yn y Gyllideb Ddrafft 2019-20. Y BEL mwyaf yn y Cam Gweithredu hwn yw'r Grant Cymorth i Fyfirwyr (£425.742 miliwn).<sup>66</sup> Mae'r BEL hwn yn cyllido prif grantiau addysg uwch ac addysg bellach, gan gynnwys y grant ffioedd dysgu sydd bellach yn cael ei diddymu'n raddol mewn ymateb i argymhelliad Adolygiad Diamond i ganolbwyntio cymorth ariannol myfirwyr israddedig ar gymorth â chostau byw yn lle cymorth â ffioedd dysgu. Disgwylir i'r arbedion a ddaw o ganlyniad i weithredu diwygiadau Diamond yn llawn, a ddechreuodd ym mis Medi 2018, gael eu hail-fuddsoddi yn y sectorau addysg uwch ac addysg bellach fel Difidend.

### Cyllid Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

---

**56.** Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018/19, cyllidodd y Cyngor Cyllido bedwar prif fath o weithgaredd o'i ddyraniad: blaenoriaethau strategol craidd, parhaus, fel

---

<sup>65</sup> Pwyllgor PPIA, tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Cydol Oes ar Gyllideb Ddrafft 2019-20, 8 Tachwedd 2018, Atodiad B.

<sup>66</sup> Ibid.

yr amlinellir yn ei lythyr cylch gwaith, o'i gyllid adnoddau; costau rhedeg y Cyngor Cyllido; ymrwymadau ychwanegol a nodir gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio arian wedi ei neilltuo; a'r rhaglen gyfalaf.

Tabl 3: Gofynion cyllido Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 2018/19

Blaenoriaethau strategol craidd CCAUC	Costau rhedeg CCAUC <sup>67</sup>	Ymrwymadau ychwanegol	Cyfalaf
Ymchwil: £78.9 miliwn	£0.296 miliwn	Lliniaru ffioedd: £10 miliwn	£10 miliwn
Dysgu rhan amser: £25.5 miliwn		Bwrsariaeth Meistr Dros Dro: £8.8 miliwn	
Dysgu llawn amser: £15.2 miliwn			
Mentrau strategol: £2.3 miliwn			

Ffynhonnell: CCAUC, [Cylchlythyr: Dyraniadau Cyllido 2018/19 CCAUC](#), Mai 2018, tud.5

**57.** Ar gyfer blynyddoedd academiaidd 2017/18 a 2018/19, dywedodd y Cyngor Cyllido nad oedd ganddo ddigon o arian i gwrdd â'i bedair blaenoriaeth strategol craidd, ac felly roedd yn ofynnol iddo ostwng swm yr arian y mae'n ei dalu i brifysgolion. Yn 2017/18 roedd hyn yn gyfystyr â diffyg o £22.5 miliwn, a diffyg o £12.5 miliwn yn 2018/19.<sup>68</sup> Mae'n debyg, felly, y bydd cynnydd heb ei neilltuo yn BEL y Cyngor Cyllido ar gyfer 2019-20 yn cael ei ddefnyddio i wneud iawn am y diffygion hyn cyn bod arian ar gael ar gyfer blaenoriaethau ychwanegol - er, fel corff hyd braich, mater i'r Cyngor Cyllido yw hwn.

**58.** O'i gymharu â chynlluniau ar gyfer 2019-20 yng Nghyllidebau Terfynol a Chyllidebau Atodol 2018-19, mae cyllideb adnoddau'r Cyngor Cyllido wedi cynyddu £11.382 miliwn. Mae'r arian ychwanegol hwn wedi dod o'r manau a ganlyn, ac mae wedi ei neilltuo fel yr amlinellir:

- BEL Grant Cymorth Myfyrwyr (£5 miliwn), i gyllido ail flwyddyn y cynllun bwrsari Meistr dros dro;
- BEL Dysgu seiliedig ar waith (£5 miliwn), i gyllido ail flwyddyn y Prentisiaethau Gradd;
- trosglwyddiad o gronfa drawsnewid yr Undeb Ewropeaidd sydd mewn cronfeydd wrth gefn (£1.382 miliwn), i gyllido Cymru Fyd-eang II.<sup>69</sup>

<sup>67</sup> Cyfrifwyd ar sail blwyddyn ariannol.

<sup>68</sup> Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, [Cylchlythyr: Dyraniadau Cyllido 2018/19 CCAUC](#), 30 Mai 2018.

<sup>69</sup> Pwyllgor PPIA, Tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar Gyllideb Ddrafft 2019-20, 8 Tachwedd 2018, tud.4.

**59.** Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i Gyngor Cyllido Addysg Uwch fesul blwyddyn ariannol, tra bod y Cyngor Cyllido yn dyrannu ei gyllid i'r sector addysg uwch fesul blwyddyn academaidd. Golyga hyn:

- ni ddylid ystyried BEL y Cyngor Cyllido ar gyfer 2019-20 yn gymesur â'r adnoddau sydd ar gael i'w dyrannu i ddarparwyr gan y Cyngor Cyllido ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20;
- mae cyllid blwyddyn academaidd bresennol 2018/19 gan y Cyngor Cyllido i'r sector wedi ei seilio'n rhannol ar gyllideb ddangosol 2019-20 Llywodraeth Cymru a ddatblygwyd gan y Cyngor Cyllido;
- o gofio bod y Gyllideb Ddrafft 2019-20 yn dyrannu rhagor at y Cam Gweithredu Addysg Uwch na'r hyn a gynlluniwyd yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 ac yng nghyfrifiadau dangosol 19-20 y Cyngor Cyllido, bydd gan y Cyngor Cyllido ragor o gyllid nag a ragwelwyd. Gall ryddhau'r arian hwn i flynyddoedd academaidd 2018/19 neu 2019/20, neu yn rhannol i'r ddau.

**60.** Fel corff hyd braich, nid yw'r mwyafrif o gyllid y Cyngor Cyllido wedi ei neilltuo, gan ei alluogi i ddyrannu'r arian fel y gwêl orau, ond yn unol â'i lythyr cylch gwaith blynyddol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r £11.382 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2019-20 wedi ei neilltuo, fel y manylir ym mharagraff 58 uchod. Pan holwyd hi am y rheswm dros hyn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

“...again, it's this balancing act, isn't it, about being able to give a steer so that Government strategic objectives and priorities are delivered on, and a free-for-all.”<sup>70</sup>

## Adolygiadau Diamond a Reid

---

**61.** Fel rhan o ddiwygiadau Diamond, roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi ymrwymo i ail-fuddsoddi arbedion grantiau myfyrwyr yn y sectorau addysg uwch ac addysg bellach.<sup>71</sup> Cyfeirir at hyn fel “Difidend Diamond”.

**62.** Yn 2019-20, bydd £10.561 miliwn yn cael ei drosglwyddo o'r BEL Grantiau Cymorth i Fyfirwyr i BEL y Cyngor Cyllido ar gyfer y fwrsariaeth ôl-raddedig (£5 miliwn) a bydd y £5.561 miliwn sy'n weddill yn cael ei “ail-flaenoriaethu”<sup>72</sup> o fewn y

---

<sup>70</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 115], 8 Tachwedd 2018.

<sup>64</sup> Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 194], 22 Tachwedd 2016.

<sup>72</sup> Pwyllgor PPIA, Tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar Gyllideb Ddrafft 2019-20, 8 Tachwedd 2018, tud.7.

MEG Addysg. Nid yw'n glir o'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a ddyrannwyd y £5.561 miliwn hwn sy'n weddill i addysg uwch ac addysg bellach fel rhan o Ddifidend Diamond ynteu i feysydd ehangach yn y MEG.

**63.** Pan holwyd hi am ragamcan o raddfa'r Difidend, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

"We have shared indicative figures with the higher education funding council. Of course, some of these things are a moveable feast because of student numbers, et cetera, but we've been able to give indicative figures. [...] being able to give long-term forecasts with absolute certainty is really, really challenging.

[...] my agreement with the First Minister was that the higher education sector would not be disadvantaged by the implementation of Diamond, and we are making good on that promise."<sup>73</sup>

**64.** Pan wahoddwyd hi i gadarnhau sut byddai'r Difidend yn cael ei ddefnyddio, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"...my intention is, in the first instance, to support expensive subjects, because that's the feedback from institutions, that that's where the priority needs to go because the support for expensive subjects has been limited and, in fact, has gone because of budgets previously. So, that's the first call on the money, to reinvest and support institutions around expensive subjects."<sup>74</sup>

**65.** Ystyriodd Adolygiad Reid, a adroddodd ym mis Mehefin 2018, weithgarwch ymchwil ac arloesi a sut dylid ei gyllido yng Nghymru.<sup>75</sup> Mae'r dystiolaeth a gafwyd ar gyfer ymchwiliad cyfredol y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau i ymchwil ac arloesi yng Nghymru yn dangos cefnogaeth ysgubol ar gyfer gweithredu argymhellion Adolygiad Reid yn llawn.<sup>76</sup> Pan holwyd ef yn y Pwyllgor Craffu ar waith y Prif Weinidog ar 16 Tachwedd ynghylch yr heriau ariannol sy'n wynebu'r sector addysg uwch ac addysg bellach yn nhermau ymchwil ac arloesi yn sgil Cyllideb Ddrafft 2019-20, dywedodd y Prif Weinidog mai mater i Ysgrifennydd y Cabinet oedd hynny, ond:

---

<sup>73</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion [paragraffau 125 a 129], 8 Tachwedd 2018.

<sup>74</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion [paragraff 125], 8 Tachwedd 2018.

<sup>75</sup> Llywodraeth Cymru, Adolygiad o Ymchwil ac Arloesi a Ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru, Mehefin 2018.

<sup>76</sup> Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Ymchwiliad i Ymchwil ac Arloesi, 2018 .

---

“ynglŷn â’r gyllideb ei hun, mae yna gyllideb ddrafft gyda ni ar hyn o bryd. Ni allwn ni fyth hala arian ar bopeth – rydym ni’n gwybod hynny – ond rydym yn fodlon ystyried unrhyw ran o’r gyllideb lle efallai y byddai’n bosib i roi mwy o arian. Nid yw hynny’n warant, wrth gwrs, ond wrth glywed gan y penaethiaid, dyna’r ffordd rŷm ni’n ffeindio mas ble yn gwmws mae eu blaenoriaethau nhw hefyd.”<sup>77</sup>

## EIN BARN

---

Mae llawer o’r naratif sy’n ymwneud ag addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru wedi cael ei lywio gan adolygiadau ddiweddar Diamond a Reid. Mae cyflawni holl argymhellion y ddau adolygiad blaenllaw hyn yn dibynnu’n helaeth ar wireddu “Difidend Diamond” fel y’i gelwir.

Rydym yn nodi pwyslais Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar y ffaith “nad y Difidend hwn yw’r ateb” i bob problem, a’r ffaith ei bod yn ailadrodd ei chytundeb â’r Prif Weinidog na fyddai’r sector addysg uwch dan anfantais drwy weithredu Adolygiad Diamond. Rydym yn pryderu am y cyferbyniad yn y tŷn rhwng ei datganiad i’r Cyfarfod Llawn yn dilyn cyhoeddi’r adolygiad, lle dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru “yn cyflawni Difidend yn y dyfodol ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch”<sup>78</sup> a’i datganiad ar 8 Tachwedd, sy’n ymddangos yn llai uchelgeisiol, wrth ddweud na fyddai’r sector “dan anfantais”.<sup>79</sup>

Rydym hefyd yn pryderu bod diffyg tryloywder ar hyn o bryd mewn perthynas â Difidend Diamond. Er bod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi derbyn rhagamcaniadau dangosol, nid yw’r rhain ar gael i’r cyhoedd. Er ein bod yn cydnabod disgrifiad Ysgrifennydd y Cabinet o’r Difidend fel “rhywbeth amhenodol” ac felly ein bod ni’n deall ei chyndynrwydd pan ofynnwyd iddi rannu ffigurau, o ystyried pwysigrwydd y Difidend i’r sector, credwn y dylai rhagamcanion fod ar gael yn ehangach ar gyfer craffu. Ar ben hynny, credwn fod angen adrodd yn fwy eglur am arian a symudwyd o’r BEL Grantiau Cymorth i Fyfyrrwyr o ganlyniad i arbedion. Ar hyn o bryd, er enghraifft, nid yw’n glir a fydd y £5 miliwn a ail-flaenoriaethir i’r MEG Addysg yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y sector addysg uwch ac addysg bellach yn unol ag ymrwymadau blaenorol Llywodraeth Cymru.

Yn y tymor hwy, rydym yn pryderu bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi nodi y bydd pynciau drud yn cael eu blaenoriaethu uwchlaw ymchwil ac arloesi, er gwaethaf

---

<sup>77</sup> Pwyllgor Craffu ar waith y Prif Weinidog, Cofnod y Trafodion [paragraff 53], 16 Tachwedd 2018.

<sup>78</sup> Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 194], 22 Tachwedd 2016.

<sup>79</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 110], 8 Tachwedd 2018.

y lle sylfaenol a roddir iddynt yn *Ffyniant i Bawb* a'r argymhellion a wnaed gan Adolygiadau Reid a Diamond. At hynny, nodwn fod gostyngiad wedi bod mewn cyllid ar gyfer pynciau ac ymchwil drud am y ddwy flynedd ddiwethaf, ond darparwyd symiau llai o arian wedi ei neilltuo ar gyfer meysydd eraill. Rydym yn bwriadu monitro'r lefelau neilltuo a gymhwysir i gyllid y Cyngor Cyllido, a byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth mewn cyllidebau yn y dyfodol ynghylch yr egwyddorion a fabwysiadwyd i wneud penderfyniadau rhwng mecanweithiau cyllido wedi eu neilltuo a heb eu neilltuo.

**Argymhelliad 13.** Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rhagamcaniadau dangosol Difidend Diamond sy'n dangos rhagamcan o gyfanswm maint y Difidend a'r swm rhagamcanol fydd ar gael bob blwyddyn wrth weithredu.

**Argymhelliad 14.** Bod Llywodraeth Cymru:

- yn egluro a fydd y £5 miliwn a ail-flaenoriaethir i'r MEG Addysg o'r BEL Grantiau Cymorth i Fyfirwyr yng Nghyllideb Ddrafft 2019-20 ('Difidend Diamond') yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y sector addysg uwch ac addysg bellach yn unol ag ymrwymïadau blaenorol Llywodraeth Cymru;
- yn nodi'n glir mewn cyllidebau yn y dyfodol i ba feysydd penodol y dyrennir unrhyw Ddifidend Diamond.

**Argymhelliad 15.** Bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth mewn cyllidebau yn y dyfodol ynghylch yr egwyddorion a fabwysiadwyd i wneud penderfyniadau rhwng mecanweithiau cyllido wedi eu neilltuo a heb eu neilltuo ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

**Argymhelliad 16.** Bod Llywodraeth Cymru yn darparu adnoddau digonol yn ei Chyllideb Derfynol ar gyfer 2019-20 i alluogi Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i gyllido'n llawn ei flaenoriaethau strategol cyn gynted â phosibl a dechrau cyllido argymhellion adolygiad Reid.

### 3. Iechyd, gofal cymdeithasol a phlant

Mae dros hanner Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20 yn cael ei dyrannu i Brif Grŵp Gwariant y Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o'r dyraniadau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc o fewn portffolios Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a



Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol yn y MEG hwn. Fodd bynnag, fel mewn blynyddoedd blaenorol, nid oes manylion am lefel yr adnoddau a ddyrennir i blant a phobl ifanc o fewn y MEG. Mae'r dyraniadau ar gyfer Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant o fewn y MEG Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r MEG Addysg. Fodd bynnag, rydym yn ymdrin â hwy yn y bennod hon gan fod gan y Gweinidog Plant gyfrifoldeb arweiniol am y polisiau hyn.

### Sefyllfa gymharol iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a phlant

- 66.** Yn y Gyllideb Ddrafft 2019-20, mae'r DEL Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu £507 miliwn o'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2018-19 (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018), i £8.186 biliwn.
- 67.** Mae cyllid terfyn gwariant adrannol refeniw y Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu £499 miliwn ers 2018-19. Mae hwn yn gynydd o 6.8 y cant mewn termau arian parod, a chynnydd o 5.2 y cant (£378 miliwn) mewn termau real. O'r holl feysydd portffolio, y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol sy'n derbyn y cynnydd mwyaf o ran canrannau (swm sylweddol o 2.1 pwynt canran) yn y cyllid terfyn gwariant adrannol refeniw yn 2019-20.
- 68.** Fel yn y blynyddoedd blaenorol, nid yw'r Gyllideb Ddrafft 2019-20 yn cynnwys manylion am lefel yr adnoddau a ddyrennir i blant a phobl ifanc, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd. Trafodir y mater hwn yn fanylach ym mhennod agoriadol ein hadroddiad.

### Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl

- 69.** Mae'r Gyllideb Ddrafft 2019-20 yn cynnwys £675 miliwn o gyllid wedi ei neilltuo ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pob oedran, sy'n golygu mai dyma'r maes gwariant mwyaf yng nghyllideb y GIG. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi cyfran arian refeniw cyffredinol y GIG y dylai Byrddau Iechyd ei wario ar wahanol agweddau ar iechyd meddwl, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) - mae hyn yn cael ei adael i Fyrddau Iechyd farnu drostynt eu hunain yn unol â'u hasesiad o anghenion a blaenoriaethau.

**70.** Mewn perthynas â monitro'r gwariant gwirioneddol ar CAMHS gan Fyrddau Iechyd, esbonnir yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru:

- nid yw'r broses neilltuo yn gwahaniaethu rhwng gwahanol wasanaethau Iechyd meddwl felly nid yw data yn cael ei gasglu ar faint a chanran gwariant Iechyd meddwl wedi ei neilltuo Byrddau Iechyd a ddyrennir ar gyfer CAMHS;
- caiff y canlyniadau a ddarperir drwy'r cyllid blynyddol o £8 miliwn, sydd wedi bod ar gael ar gyfer CAMHS wedi ei dargedu ers 2015-16, eu hadolygu'n rheolaidd, ac unwaith y caiff gwasanaethau newydd neu estynedig sy'n cael eu cyllido gan yr arian ychwanegol eu "recriwtio'n llawn i wasanaethau CAMHS ehangach a dod yn rhan ohonynt, mae cyllid yn cael ei gynnwys yn y dyraniadau cyllido ehangach ar gyfer bwrdd Iechyd."<sup>80</sup>

**71.** Mewn tystiolaeth lafar, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd yr £8 miliwn a ddyrennir yn rheolaidd yn flynyddol i gefnogi trawsnewid CAMHS wedi ei dargedu ers 2015-16 yn cael ei drosglwyddo yn y dyfodol i'r arian cyffredinol a neulltuir ar gyfer gwasanaethau Iechyd meddwl i bob oedran.<sup>81</sup>

**72.** Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd cyllid yn cael ei ddarparu i ddatblygu'r agwedd ysgol gyfan newydd at Iechyd meddwl a llesiant a argymhellir yn ein hadroddiad *Cadernid Meddwl*. Pan holwyd hi am yr union swm a ddyrannwyd ar gyfer hyn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod £35 miliwn ar gael yn y "maes eang" ond nad oedd y swm cyfan ar gael i blant a phobl ifanc yn unig. Aeth ymlaen i ddweud:

"We haven't allocated a specific sum of money to take forward the whole-school approach because we haven't finished the policy work on what we want to do."<sup>82</sup>

**73.** Yn y Gyllideb Ddrafft 2019-20, mae £0.5 miliwn ychwanegol hefyd wedi ei ychwanegu i gefnogi'r cynllun peilot gwasanaethau Iechyd meddwl a'r glasoed mewn ysgolion, wedi ei gyllido ar y cyd gan Iechyd ac Addysg rhwng 2017-18 a

---

<sup>80</sup> Pwyllgor PPIA, Tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2019-20, 8 Tachwedd 2018.

<sup>81</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 245], 8 Tachwedd 2018.

<sup>82</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 238], 8 Tachwedd 2018.

2020- 21. Mae hyn yn dod â chyfanswm y cyllid ar gyfer y rhaglen dros y pedair blynedd ariannol i £1.9 miliwn.

**74.** Mewn tystiolaeth lafar, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at gyfraniad y sector gwaith ieuenctid at iechyd emosiynol a meddyliol, ac at adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd i'r sector yn 2019-20:

“Although there is an ongoing reform programme around youth services, we do know that this is an area that has been under the cosh because of austerity and difficulties. We’re very keen that this additional resource that’s available for youth services [£2.5 million] is part of our response to mental health in young people, recognising that a well-trained and vibrant youth provision may be the place where young people are going to get that support, and not necessarily in school, not necessarily in the health service, but actually in the wider services that are available for children and young people. So, we’re hoping that this additional resource can help us meet some of those objectives as well to increase support available to children and young people’s mental health.”<sup>83</sup>

## EIN BARN

---

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod yr argymhellion a wnaethom yn ein hadroddiad *Cadernid Meddwl* - i fynd i'r afael â chymorth, o'r ataliol i'r mwyaf arbenigol - yn cael eu cyflawni erbyn diwedd y Cynulliad hwn. Rydym yn croesawu'r gwaith mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud mewn ymateb i'n hymchwiliad, ac rydym yn bwriadu cadw golwg fanwl ar yr adnoddau ariannol a fydd yn cael eu rhoi ar waith i gyflawni'r canlyniadau rydym yn disgwyl eu gweld.

Fe wnaethom alw yn ein hadroddiad *Cadernid Meddwl* am welliannau i dryloywder ac atebolrwydd y Byrddau Iechyd mewn perthynas â gwariant ar y gwasanaethau iechyd meddwl ac emosiynol ar gyfer plant a phobl ifanc. Rydym yn dal yn siomedig bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei wrthod, ac nad yw'n ymddangos bod unrhyw gynnydd pellach wedi ei wneud mewn perthynas â darparu gwybodaeth am wariant ar wasanaethau iechyd meddwl ac emosiynol mewn modd cliriach, a hynny'n gyhoeddus, er mwyn llywio'r rownd gyllideb hon a rowndiau cyllideb yn y dyfodol.

---

<sup>83</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 212], 8 Tachwedd 2018.

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i ddarparu cyllid i ddatblygu a chyflawni'r ymagwedd ysgol gyfan. Rydym yn argymhell ac yn annog Llywodraeth Cymru i symud ymlaen â'r gwaith hwn fel mater o flaenoriaeth er mwyn cyflwyno'r newid sylweddol yn y cymorth rydym wedi galw amdano.

Rydym yn pryderu y bydd y cyllid blynyddol o £8 miliwn ar gyfer cyflwyno'r trawsnewidiad sydd ei angen yn fawr ar CAMHS yn cael ei drosglwyddo i'r arian a neilltuir ar gyfer iechyd meddwl. Rydym yn cytuno â'r farn a fynegwyd wrthym ar 22 Tachwedd gan Gomisiynydd Plant Cymru y dylai'r £8 miliwn hwn, o leiaf, gael ei ddiogelu i'w wario ar drawsnewid CAMHS nes bydd y cymorth yn cyrraedd y lefelau gofynnol.<sup>84</sup>

Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae gwaith ieuencid yn ei chwarae o ran darparu cymorth â lles emosiynol a meddyliol pobl ifanc, a byddem yn croesawu rhagor o eglurder ynghylch y defnydd arfaethedig o'r £2.5 miliwn ychwanegol a ddyrennir yn 2019-20 i'r BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid.

**Argymhelliad 17.** Bod Llywodraeth Cymru:

- yn ailystyried ei safbwynt mewn perthynas â'n galwad am gyhoeddi data mwy tryloyw ar ddyraniadau cyllideb ar gyfer - a gwariant ar - wasanaethau sy'n ategu'r gwasanaethau iechyd meddwl ac emosiynol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- yn gwyrddroi ei benderfyniad i drosglwyddo'r £8 miliwn blynyddol yn ychwanegol i gynorthwyo CAMHS wedi ei dargedu at y cyllid iechyd meddwl cyffredinol wedi ei neilltuo nes bydd y cymorth yn cyrraedd y lefelau gofynnol a bod y canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc wedi gwella'n amlwg;
- yn egluro, fel mater o flaenoriaeth, faint o arian fydd ar gael ar gyfer datblygu a chyflwyno ymagwedd ysgol gyfan at iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol;
- yn egluro ei bwriadau ar gyfer y £2.5 miliwn ychwanegol a ddyrennir yn 2019-20 i'r BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid.

## Gwasanaethau newyddenedigol

**75.** Cyllidir gwasanaethau newyddenedigol y Byrddau Iechyd drwy'r dyraniadau refeniw disgresiwn blynyddol, gyda phob Bwrdd yn nodi ei flaenoriaethau lleol o ran gwasanaethau newyddenedigol yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig

---

<sup>84</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 130-131], 22 Tachwedd 2018.

(IMTP). Bydd y Cynllun hwn hefyd yn rhoi manylion am faint o gyllideb y mae'r Bwrdd yn bwriadu ei dyrannu i Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Dynodedig Cymru (WHSSC) i reoli lefel 3 (newydd-anedig dibyniaeth uchel) a lefel 4 (newyddenedigol gofal dwys) ar lefel Cymru gyfan ar ran yr holl Fyrddau Iechyd.

**76.** Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bod ei blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol dros y 12 mis nesaf yn cynnwys:

- gweithio gyda'r Rhwydwaith Newyddenedigol i sicrhau y darperir gwasanaeth trafndiaeth newyddenedigol 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar draws de Cymru;
- sicrhau bod y capasiti gofal critigol cywir a'r gweithlu priodol ar waith;
- sicrhau bod cynlluniau gwasanaeth newyddenedigol y Byrddau Iechyd yn ddigon cadarn i gyflawni Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan.<sup>85</sup>

**77.** Pan ofynnwyd a oedd cyllid digonol ar gael i gyflawni'r blaenoriaethau hyn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod yn disgwyl i'r holl Fyrddau Iechyd gyllido'r gwasanaethau "o fewn y twf sylweddol sy'n digwydd i'r gyllideb iechyd".<sup>86</sup> Mewn perthynas â gwneud cynnydd ar wasanaeth cludiant newyddenedigol 24/7 ar draws de Cymru, eglurodd fod Byrddau Iechyd perthnasol ar y cam o ddadansoddi'r gwariant cyfredol ar wasanaethau presennol.<sup>87</sup> Ni chyfeiriwyd at wasanaethau yng ngogledd Cymru.

## EIN BARN

---

Rydym yn croesawu'r cynnydd a wnaed i ddatblygu a chyhoeddi trydydd rhifyn y safonau newyddenedigol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Serch hynny, rydym yn pryderu nad yw materion sy'n berthnasol i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor a ragflaenodd y Pwyllgor hwn ar wasanaethau newyddenedigol - gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chludiant, capasiti gofal critigol a'r gweithlu - wedi cael sylw llawn eto, dros chwe blynedd yn ddiweddarach.

---

<sup>85</sup> Pwyllgor PPIA, Tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2019-20, 8 Tachwedd 2018, tud.13.

<sup>86</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 398 a 400], 8 Tachwedd 2018.

<sup>87</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 398], 8 Tachwedd 2018.

### **Argymhelliad 18.** Bod Llywodraeth Cymru:

- yn rhoi diweddariad ar argymhellion adroddiad y pwyllgor a ragflaenodd y pwyllgor hwn ar wasanaethau newyddenedigol;
- yn rhoi crynodeb o'r buddsoddiadau a wnaed yn y maes hwn a'r canlyniadau penodol a gyflawnwyd o ganlyniad i'r cyllid hwnnw;
- yn egluro'r sefyllfa o ran gwasanaeth trafndiaeth newyddenedigol yng ngogledd Cymru.

### **Iechyd meddwl amenedigol**

**78.** Ers 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £1.5 miliwn y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol cymunedol yng Nghymru. Ni chynigir newidiadau mewn perthynas â'r cyllid hwn yn 2019-20.

**79.** Fodd bynnag, cyfeirir yn nhystiolaeth ysgrifenedig a chynigion manwl Llywodraeth Cymru ar y Gyllideb Ddrafft at:

- gydnabyddiaeth yng Nghyllideb Ddrafft 2019-20 bod "angen buddsoddiad pellach yn y maes hwn", yn enwedig mewn perthynas â chynlluniau sydd ar y gweill drwy Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Dynodedig Cymru i ddarparu cymorth unedau mamau a babanod yng Nghymru;
- y cyfle a gafodd Byrddau Iechyd i gyflwyno cynigion i gynyddu capasiti'r gwasanaeth iechyd meddwl amenedigol o'r gronfa trawsnewid iechyd meddwl sy'n werth £7 miliwn;
- y £15 miliwn ar gyfer iechyd meddwl, gan gynnwys iechyd meddwl amenedigol, sydd wedi ei gynnwys yn y £192 miliwn o fuddsoddiad refeniw newydd yn 2019-20 i gyflwyno cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, *Cymru Iachach*. [DS, ni ddarperir dadansoddiad mwy manwl o'r modd y caiff y £15 miliwn ei rannu rhwng meysydd fel yr ymagwedd ysgol gyfan, anabledau dysgu, cymorth iechyd meddwl cofleidiol i bobl ddigartref, a gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol].<sup>88</sup>

---

<sup>88</sup> Pwyllgor PPIA, Tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar y Gyllideb Ddrafft 2019-20, 8 Tachwedd 2018, tud.12 a Llywodraeth Cymru, Cynigion Manwl y Gyllideb Ddrafft 2019-20, Hydref 2018, paragraff 3.15.

## EIN BARN

---

Rydym wedi ymrwymo i ddilyn cynnydd ar yr argymhellion a wnaethom yn ein hadroddiad yn 2017 ar iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru. Rydym dal o'r farn bod modd cael cyllid ar waith i gynorthwyo gwasanaethau o'r fath ar sail "buddsoddi i arbed" o gofio'r effaith eang a helaeth y gall salwch meddwl amenedigol ei chael ar famau, eu babanod a'u teuluoedd ehangach.

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth yng Nghyllideb Ddrafft 2019-20 bod angen rhagor o adnoddau yn y maes hwn a'r awgrym bod trafodaethau perthnasol yn parhau. Fodd bynnag, rydym yn arbennig o bryderus na phenderfynwyd o hyd ar ffurf y ddarpariaeth ar gyfer cymorth unedau mamau a babanod yng Nghymru - heb sôn am y cymorth a ddarperir - dros flwyddyn ar ôl i ni gyflwyno adroddiad a chyflwyno tystiolaeth o angen brys.

**Argymhelliad 19.** Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o eglurder ar amseriad penderfyniadau mewn perthynas ag adnoddau ar gyfer iechyd meddwl amenedigol - yn enwedig cymorth unedau mamau a babanod i deuluoedd o bob rhan o Gymru, gan gynnwys y gogledd.

### Ardoll y diwydiant diodydd ysgafn

**80.** Daeth ardoll diwydiant diodydd ysgafn Llywodraeth y Deyrnas Unedig i rym ym mis Ebrill 2018. Mae'n berthnasol i gynhyrchu a mewnfurio diodydd ysgafn sy'n cynnwys siwgr ychwanegol, a'i nod penodol yw "cyfrannu at gynlluniau llywodraeth [y Deyrnas Unedig] i leihau gordewdra ymhlith plant drwy gael gwared â siwgr ychwanegol o ddiodydd ysgafn".<sup>89</sup>

**81.** Nodir fel a ganlyn yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru:

"Mae gan Lywodraeth Cymru ddisgresiwn ar sut y mae'n dewis defnyddio cyllid canlyniadol gan Lywodraeth y DU. Ochr yn ochr â chyflwyno'r ardoll, mae Llywodraeth y DU wedi cynyddu gwariant mewn nifer o feysydd yn Lloegr. O ganlyniad, rydym wedi derbyn rhywfaint o gyllid sydd eisoes wedi'i ddyrannu mewn cyllidebau dilynol, yn unol â'n blaenoriaethau."<sup>90</sup>

---

<sup>89</sup> Cyllid a Thollau EM, **Papur polisi: Ardoll y Diwydiant Diodydd Ysgafn**, Rhagfyr 2016.

<sup>90</sup> Pwyllgor PPIA, Tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2019-20, 8 Tachwedd 2018, tud.15.



**82.** Mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig ym mis Ebrill 2018, cadarnhawyd fod y swm canlyniadol hwn yn £57 miliwn dros dair blynedd (2016-17 i 2019-20). Nodwyd hefyd fod arian wedi ei ddyrannu “ar draws amrywiaeth o weithgareddau iechyd ac addysgol i wella canlyniadau i blant yng Nghymru” gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys brecwastau ysgol am ddim, Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol, imiwneiddio plant mewn ysgolion cynradd a'r gronfa trawsnewidiad mewn iechyd, er na ddarparwyd union ddadansoddiad o'r £57 miliwn.<sup>91</sup>

## EIN BARN

---

Fel egwyddor, rydym yn cefnogi'r disgresiwn a roddir i Lywodraeth Cymru wrth ddewis sut i ddefnyddio cyllid canlyniadol gan Lywodraeth y DU. O ystyried mater sylweddol a chynyddol gordewdra ymysg plant, credwn y dylid ystyried o ddifrif defnyddio'r disgresiwn hwn i fabwysiadu camau tebyg i'r rhai a gymerir mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig i dargedu'r arian hwn tuag at fynd i'r afael â gordewdra ymysg plant yn uniongyrchol. Nid yw hyn yn golygu buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd yn unig - gallai buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol, er enghraifft y rhai a ddarperir gan awdurdodau lleol, fod yn ddewis hefyd.

**Argymhelliad 20.** Bod Llywodraeth Cymru mewn blynyddoedd ariannol yn y dyfodol yn defnyddio unrhyw gyllid canlyniadol sy'n codi o ganlyniad i ardoll diwydiant diodydd ysgafn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer mynd i'r afael â gordewdra ymysg plant yn uniongyrchol, gan ddangos dyraniadau o'r fath yn glir mewn Cyllidebau Drafft yn y dyfodol fel y gellir craffu ar eu heffaith.

## Plant sy'n derbyn gofal

Plant sy'n derbyn gofal a gwasanaethau ar ffiniau gofal

---

**83.** Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn targedu cyllid tuag at ymyriadau neu wasanaethau sy'n ceisio lleihau nifer y plant sydd angen llety awdurdod lleol yn ddiogel drwy ganolbwyntio ar wasanaethau atal a chymorth i deuluoedd, y cyfeirir atynt fel rhai “ar ffiniau gofal”. Symudwyd £7 miliwn i'r Grant Cymorth Refeniw yn 2018-19 ar gyfer gwasanaethau ar ffiniau gofal.

**84.** Wrth roi tystiolaeth i ni ar 8 Tachwedd, roedd y Gweinidog yn gadarnhaol ynghylch effaith dyraniadau ar gyfer gwasanaethau o'r fath, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith bod gan awdurdodau lleol Cymru fwy o blant yn eu gofal nag

---

<sup>91</sup> Cwestiwn Ysgrifenedig yn y Cynulliad, [Cyflwynwyd ar 4 Ebrill 2018 gan Lynne Neagle AC](#), a atebwyd ar 11 Ebrill 2018 gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.

erioed o'r blaen.<sup>92</sup> Dangosodd ystadegau a gyhoeddwyd ar 22 Tachwedd 2018 fod mwy na dwywaith cymaint o blant mewn gofal yn 2018 o'i gymharu â 1998, gyda 6,405 o blant yng ngofal awdurdodau lleol Cymru ar ddiwedd mis Mawrth 2018.<sup>93</sup>

**85.** Ers ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2019-20, cyhoeddodd y Gweinidog y canlynol mewn datganiad llafar ar 13 Tachwedd 2018:

“Yn rhan o gynigion y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros gyllid ar gyfer 2019-20, dyrannwyd £30 miliwn yn ychwanegol i fyrddau partneriaeth rhanbarthol i helpu i gryfhau'r trefniadau integreiddio hyn. Heddiw, rwyf yn falch o gyhoeddi y bydd £15 miliwn o'r arian hwn yn cael ei ddyrannu i symud ymlaen ein huchelgais a rennir o leihau'r angen i blant fod yn derbyn gofal. Mae hwn yn gyfle cyffrous i wneud gwahaniaeth gwirioneddol er mwyn newid y system gyfan.”<sup>94</sup>

**86.** Ar 20 Tachwedd 2018, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y byddai Llywodraeth Cymru yn “dyrannu'r £2.3 miliwn llawn o gyllid canlyniadol o Gyllideb yr hydref y Deyrnas Unedig ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant yn 2019-20 - i helpu i atal plant rhag cael eu cymryd dan ofal”.<sup>95</sup>

**Argymhelliad 21.** Bod Llywodraeth Cymru:

- yn egluro'r dadansoddiad o'r £15 miliwn o ran yr hyn a fydd yn cael ei roi fel grant i awdurdodau lleol, beth fydd yn cael ei roi yn y Grant Cynnal Refeniw ac unrhyw ddyraniad arall;
- yn monitro canlyniadau'r dyraniad, yn enwedig i ba raddau maent yn llwyddiannus wrth leihau'r angen i blant dderbyn gofal yn y tymor hwy.

Grant Datblygu Disgyblion

---

**87.** Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn darparu arian ychwanegol i ysgolion a chonsortia rhanbarthol i roi hwb i ganlyniadau addysgol disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi cael eu

---

<sup>92</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 332-335], 8 Tachwedd 2018.

<sup>93</sup> StatsCymru, Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran, 22 Tachwedd 2018.

<sup>94</sup> Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraff 259], 13 Tachwedd 2018.

<sup>95</sup> Datganiad ysgrifenedig, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford AC, 20 Tachwedd 2018.

mabwysiadu. Dyrennir oddeutu £97 miliwn i'r Grant Datblygu Disgyblion yn y DEL Adnoddau Addysg ar gyfer 2019-20.

**88.** Yn 2018-19, dyrannwyd £4.5 miliwn yn y Grant Datblygu Disgyblion ar sail nifer y disgyblion sy'n derbyn gofal (3,907) sy'n derbyn y dyraniad o £1,150 fesul disgybl. Nid oedd y ffigwr o 3,907 yn ystyried nifer y plant mabwysiedig, yr amcangyfrifir eu bod rhwng 3,000 a 3,500 o ran nifer, er bod yr elfen hon o'r Grant Datblygu Disgyblion yn bwriadu targedu plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi cael eu mabwysiadu. Yn ein hadroddiad *Cyrraedd y nod?* fe wnaethom argymhell fod Llywodraeth Cymru yn cyllido'r Grant Datblygu Disgyblion ar sail nifer y plant sy'n derbyn gofal *yn ogystal* â phlant mabwysiedig (gyda'r olaf yn swm a amcangyfrifir os nad yw'r union swm yn hysbys), i sicrhau nad yw'r cymorth Grant Datblygu Disgyblion a fwriedir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant mabwysiedig yn cael ei ledaenu'n rhy denau.<sup>96</sup>

**89.** Pan holwyd ef am lefel yr adnoddau Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant mabwysiedig, dywedodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol:

“We fully accept the rationale behind the idea that adopted children should receive support through the pupil development grant. They are included. [...] But, including adopted children within the funding formula does bring some complexities, [...] This includes, for example, whether we have robust data on children from adopted families and the need for new data collection to make that happen. There are issues of sensitivity as well, I have to say, around adoptive families.”<sup>97</sup>

**90.** Yn ogystal, dywedodd y Gweinidog:

“...it is something that the education Secretary said yesterday and has said previously she's very keen to do. She's keen to consider the options going forward. It might require some changes in regulations as well in order to do this. But, as she responded yesterday to the debate, she's live to this issue and we do agree with the principle, the rationale that adopted children should receive appropriate support through the pupil development grant.”<sup>98</sup>

---

<sup>96</sup> Pwyllgor PPIA, *Cyrraedd y nod? Cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol*, paragraff 259 ac argymhelliad 25, Mehefin 2018.

<sup>97</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 348], 8 Tachwedd 2018.

<sup>98</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 350], 8 Tachwedd 2018.

## EIN BARN

---

Mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu ynghylch gwanhau'r cymorth Grant Datblygu Disgyblion a fwriedir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant mabwysiedig, naill ai oherwydd nad yw plant mabwysiedig yn cael eu targedu'n llwyddiannus neu, lle y cânt eu targedu, bod yr arian yn cael ei ledaenu'n deneuach, sy'n golygu bod pob plentyn cymwys yn derbyn llai na'r £1,150 o gymorth a fwriadwyd. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad *Cyrraedd y nod?* mae hyn yn bryder neilltuol i ni pan ystyriwn ymagwedd fwy rhagweithiol Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ran nodi plant mabwysiedig, a'i chyllid ar gyfer y Premiwm Disgyblion yn Lloegr ar sail £2,300 yr un i blant sy'n derbyn gofal a phlant mabwysiedig.

Er ein bod yn nodi pryderon y Gweinidog ynghylch sensitifrwydd a chasglu data, nid ydym o'r farn bod y rhain yn faterion amhosibl eu datrys. Hyd yn oed os na ellir sefydlu union nifer y plant mabwysiedig, credwn y dylid gwneud mwy (fel yn achos Lloegr) i amcangyfrif niferoedd yng Nghymru a chyllido'r Grant Datblygu Disgyblion yn unol â hynny. Heb waith o'r fath, bydd y Grant Datblygu Disgyblion yn ei hanfod yn parhau i fod ar hanner lefel y dylai fod i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal a phlant mabwysiedig.

Rydym yn croesawu tystiolaeth y Gweinidog fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn "ymwybodol o'r mater hwn" a bod cytundeb "o ran egwyddor, y rhesymeg y dylai plant mabwysiedig dderbyn cymorth priodol drwy'r grant datblygu disgyblion".

**Argymhelliad 22.** Bod Llywodraeth Cymru:

- yn ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol i sefydlu amcangyfrif o leiaf o nifer y plant mabwysiedig yng Nghymru a chyllido'r Grant Datblygu Disgyblion yn unol â hynny;
- yn sicrhau bod consortia rhanbarthol y gweithio gydag asiantaethau arbenigol sy'n cynorthwyo plant mabwysiedig a phlant sy'n derbyn gofal i sicrhau bod cyllid yn darparu'r cymorth sydd ei hangen ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc.

## CAFCASS

---

**91.** Dros y degawd diwethaf, mae ceisiadau am orchmynion gofal yng Nghymru a Lloegr wedi mwy na dyblu. Pan fydd gorchmynion o'r fath yn cael eu gwneud, bydd y llys fel arfer yn gwneud cais i weithiwr Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) fod yn rhan o'r achos fel

“gwarcheidwad y plentyn”, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud er lles y plentyn.

**92.** Er gwaethaf y galw cynyddol am eu gwasanaethau, mae’r dyraniadau ar gyfer CAFCASS Cymru wedi gostwng yn 2019-20 gymaint ag 1.5 y cant mewn termau real. Pan holwyd ef am y penderfyniad hwn, dywedodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol:

“...as we go forward, what we are going to have to do, and what the work that is going on at the moment is developing is what might be termed a safe draft budget for next year, recognising the demand that they [CAFCASS] are under. So, we’re working on that at the moment to bring forward something that allows them to do timely and high-quality interventions, and that also protects their budget as well.”<sup>99</sup>

## EIN BARN

---

Rydym yn pryderu nad yw’r cynnydd yn y galw am wasanaethau CAFCASS yng Nghymru wedi cael ei gyfateb â lefel o adnoddau sy’n angenrheidiol i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau o ansawdd uchel yn y dyfodol. Rydym hefyd yn pryderu wrth glywed y Gweinidog yn cyfeirio at “gyllideb ddrafft ddiogel ar gyfer y flwyddyn nesaf”. Rydym yn croesawu’r ffaith fod ein hargymhelliad yn ein Hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2018-19 i lunio Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant ar gyllideb CAFCASS y flwyddyn ariannol honno wedi cael ei dderbyn. Fodd bynnag, rydym yn siomedig nad yw’n ymddangos bod ymarfer tebyg wedi ei wneud i lywio penderfyniadau ynghylch cyllideb CAFCASS 2019-20, er gwaethaf y cynnydd yn y galw a’r gostyngiad termau real mewn adnoddau ar gyfer gwasanaethau.

**Argymhelliad 23.** Bod Llywodraeth Cymru:

- yn ymgymryd ag Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant ar gyllideb CAFCASS ar gyfer 2019-20, a fydd yn cynnwys ystyried cynyddu’r dyraniad refeniw, fel mater o flaenoriaeth, a’i rannu gyda ni;
- yn darparu eglurder a sicrwydd ynghylch digonolrwydd cyllideb CAFCASS ar gyfer 2019-20 yng ngoleuni cyfeiriad y Gweinidog at “gyllideb ddrafft ddiogel ar gyfer y flwyddyn nesaf”.

---

<sup>99</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 340], 8 Tachwedd 2018.

## Tlodi plant

**93.** Dengys y ffigurau diweddaraf fod mwy na chwarter plant Cymru yn byw mewn tlodi.<sup>100</sup> Yn nhaflen Llywodraeth Cymru sy'n crynhoi ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2019-20, nodir bod cyllid refeniw ychwanegol yn cynnwys "pecyn o £12.5 miliwn i fynd i'r afael â thlodi plant".<sup>101</sup> Pan ofynnwyd iddo pam na chyfeiriodd yn benodol at y pecyn hwn yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, eglurodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol:

"We've been consistently clear as a Government that we regard actions to tackle child poverty as cross-Government commitments. So, in terms of the budgetary discussion today, the additional £12.5 million isn't mentioned in my paper because it's not in my portfolio. That's the simple reason."<sup>102</sup>

**94.** Pan ofynnwyd am ddadansoddiad o'r £12.5 miliwn, amlinellodd swyddog y Gweinidog fel a ganlyn:

- prydau ysgol am ddim i blant sy'n gymwys o dan system newydd o ganlyniad i gyflwyno'r credyd cynhwysol – £7 miliwn;
- y gronfa cymorth dewisol – £2 miliwn;
- cronfa mynediad y grant datblygu disgyblion – £3.5 miliwn.<sup>103</sup>

## EIN BARN

---

Yn ein hadroddiad diwethaf ar y Gyllideb Ddrafft, fe wnaethom nodi ein pryderon ynghylch diffyg targedau Llywodraeth Cymru ar dlodi plant a'r hyn roeddem yn ei weld fel diffyg eglurder ynghylch faint o arian fyddai'n cael ei ddyrannu ar gyfer tlodi plant ac yn cael ei wario ar y mater. Rydym yn croesawu'r ffaith bod £12.5 miliwn wedi cael ei ddyrannu i fynd i'r afael â thlodi plant, ond gofynnwn am fanylion pellach yng nghylchoedd cyllideb y dyfodol ynghylch dadansoddiad o gyllid o'r fath a'r canlyniadau a ddymunir.

---

<sup>100</sup> Ystadegau Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, a gyhoeddwyd ar 22 Mawrth 2018.

<sup>101</sup> Llywodraeth Cymru, Taflen Cyllideb Ddrafft, Hydref 2018.

<sup>102</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 363], 8 Tachwedd 2018.

<sup>103</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 375], 8 Tachwedd 2018.

Rydym hefyd yn nodi nad yw'r gronfa cymorth dewisol wedi ei thargedu'n benodol at blant, ac mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn 16 oed neu'n hŷn.<sup>104</sup>

Er ein bod yn nodi bod tlodi plant yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru drwyddi draw, rydym yn pryderu bod diffyg strategaeth ac arweinyddiaeth yn y maes hwn. Ni chredwn fod hyn yn cael ei helpu gan y ffaith nad oes Gweinidog penodol yn Llywodraeth Cymru yn arwain ar dlodi plant, ac nad oes llinell benodol ar gyfer tlodi plant o fewn cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Mae statws Strategaeth Tlodi Plant 2015 Llywodraeth Cymru hefyd yn aneglur.<sup>105</sup> Mae hyn er gwaethaf cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2016 nad yw ei huchelgais i ddileu tlodi plant erbyn 2020 bellach yn gyraeddadwy,<sup>106</sup> a bod Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn annog Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru i ddyrannu y swm mwyaf posibl o adnoddau sydd ar gael ar gyfer dileu tlodi plant ac ailsefydlu targedau penodol o fewn amserlen gytunedig.<sup>107</sup>

**Argymhelliad 24.** Bod Llywodraeth Cymru:

- yn egluro statws ei Strategaeth Tlodi Plant 2015 ac, os yw mewn grym, pa aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am ei chyflawni;
- datblygu strategaeth newydd ar dlodi plant i roi cyfarwyddyd i'w weithgarwch i ddileu tlodi plant yng Nghymru. Dylai'r strategaeth hon nodi'n eglur lle mae cyfrifoldebau unigol dros gamau o fewn y Cabinet. Dylai gwybodaeth am y gyllideb yn y dyfodol adlewyrchu'n glir ddyraniadau i gyflawni'r strategaeth hon a gwella canlyniadau yn y maes hwn.

## Y Grant Plant a Chymunedau

**95.** Yn nghyllideb y llynedd, cyfunwyd tair cyllideb refeniw (Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf, a Theuluoedd yn Gyntaf) yn un Maes Rhaglenni Gwariant. Ceisiodd Llywodraeth Cymru hefyd gyfuno'r holl grantiau a dalwyd i awdurdodau lleol i gefnogi ymyriadau cynnar, atal a chymorth, a threalu hyn mewn saith awdurdod lleol.

---

<sup>104</sup> Llywodraeth Cymru, [Meini Prawf Cymhwyster y Gronfa Cymorth Dewisol](#).

<sup>105</sup> Llywodraeth Cymru, [Strategaeth Tlodi Plant](#), Mawrth 2015.

<sup>106</sup> Llywodraeth Cymru, [Strategaeth Tlodi Plant: Asesu Cynnydd 2016 \(Adroddiad Cryno\)](#), Rhagfyr 2016.

<sup>107</sup> Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, [Concluding observations on the fifth periodic report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland](#), Mehefin 2016.

---



**96.** Nodir yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru y bydd y dull hwn yn cael ei ddiwygio yn 2019-2020, ac y bydd Grant Plant a Chymunedau, sy'n werth cyfanswm o £113.05 miliwn, yn cael ei greu, gan cynnwys:

- £73.77 miliwn ar gyfer Dechrau'n Deg;
- £35.98 miliwn ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf;
- £2.30 miliwn ar gyfer y Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol;
- £1.00 miliwn ar gyfer Cronfa Dydd Gŵyl Dewi.<sup>108</sup>

**97.** Mewn tystiolaeth lafar, cadarnhaodd swyddog y Gweinidog fod y gostyngiad o £5 miliwn yn y dyraniad cynnig gofal plant ar gyfer 2019-20 o £45 miliwn i £40 miliwn (mewn ymateb i'r lefelau defnydd a ragwelir a'r rhagamcaniadau cyfredol) wedi cael ei ddefnyddio i gyfrannu at wrthdroi'r gostyngiad o £13 miliwn a ragwelir i'r Grant Plant a Chymunedau yn 2019-20.<sup>109</sup>

**98.** Mewn tystiolaeth ddiweddar i ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr, mynegodd cynrychiolwyr y trydydd sector bryder bod awdurdodau lleol yn dibynnu'n gynyddol ar arian a ddyrannwyd i Deuluoedd yn Gyntaf i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth yn sgil setliadau tynn llywodraeth leol. Awgrymwyd bod arian Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei ddargyfeirio i ffwrdd o ddarparwyr y trydydd sector at y diben hwn.<sup>110</sup>

## EIN BARN

---

Amlinellir ein barn ar y trefniadau cyllido ar gyfer Dechrau'n Deg, gan gynnwys fforddiadwyedd a gwerth am arian, yn ein hadroddiad ym mis Chwefror 2018. Edrychwn ymlaen at ddilyn y cynnydd ar ein hargymhellion yn 2019.

Wrth gyfuno nifer o grantiau llai mewn un grant mawr, credwn ei bod yn bwysig cadw tryloywder. Er mwyn parhau i graffu'n drylwyr, rydym yn awyddus i sicrhau y gallwn barhau i olrhain o ba le ac i ba le mae refeniw (a chyfalaf lle bo'n berthnasol) yn cael ei ddyrannu. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y dyraniadau ar gyfer y grantiau cydran o fewn y Grant Plant a Chymunedau

---

<sup>108</sup> Pwyllgor PPIA, Tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2019-20, 8 Tachwedd 2018, tud. 5.

<sup>109</sup> Pwyllgor PPIA, Cofnod y Trafodion, [paragraff 311], 8 Tachwedd 2018.

<sup>110</sup> Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 152 a 157], 21 Tachwedd 2018.

ehangach yn parhau i fod yn amlwg, a monitro'n agos a yw'r cymorth a ddarperir drwy'r Grant yn cael ei ddefnyddio i wneud iawn am ddiffygion mewn mannau eraill yng nghyllid llywodraeth leol.

**Argymhelliad 25.** Bod Llywodraeth Cymru:

- yn sicrhau nad oes unrhyw ostyngiad yn nhryloywder yr wybodaeth a ddarperir mewn perthynas â'r grantiau cydran sy'n ffurfio'r Grant Plant a Chymunedau;
- yn monitro'n agos a yw'r cymorth a ddarperir drwy'r Grant yn cael ei ddefnyddio i wneud iawn am ddiffygion mewn mannau eraill yng nghyllid llywodraeth leol.